

# ECO'r Wyddfa

 Dilynwch ni ar facebook  
www.ecorwyddfa.co.uk

Rhif: 467

Gorffennaf/Awst 2018

Pris: 70c



## Dysgwyr drws nesa'

Llongyfarchiadau i Yankier Perez o Lanrug sy'n un o'r pedwar olaf yng nghystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd fis Awst. Ac y mae'n ddysgwr go arbennig, oherwydd pan gyrhaeddodd yma yn 2011 o Cwba, Sbaeneg oedd ei iaith a phrin bod ganddo Saesneg, ac aeth ati i ddysgu'r iaith honno a Chymraeg. Erbyn hyn mae'n Dechnegydd Fferylllyddol yn Ysbyty Gwynedd ac yn parhau gyda'i wersi Cymraeg. Cafodd ei enwebu gan Ceri Phillips, ei athrawes Gymraeg yn Ysbyty Gwynedd. Mae bellach yn briod â Lowri a chanddynt fab bychan, Luca, sy'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Llanrug.

Yn byw y drws nesa i Yankier mae Davyth Fear, a oedd yn un o'r pedwar olaf yn yr un gystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun, nôl yn 1986. Roedd yn byw yn Cheltenham hyd 1984, ond wedi graddio daeth i Fangor i gwblhau cwrs ymarfer dysgu, gan fynychu gwersi Wlpan yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Roedd ei swydd gyntaf yn Ysgol Ardudwy, Harlech, cyn symud i swydd barhaol yn Ysgol Eifionydd, Porthmadog yn 1986. Yno y dechreuodd ddysgu Daearyddiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf, cwta ddwy flynedd wedi dysgu'r iaith.

Dymunwn bob llwyddiant i Yankier a gobeithio y bydd yn dilyn yn olyniaeth lwyddiannus Stel Farrar ac Emma Chappel, Dysgwyr y Flwyddyn o'r fro.

(gweler hefyd tudalen 5)

ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >

RHIF 467  
Gorff/Awst 2018

Argraffwyd gan  
Wasg Dwyfor  
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau  
ar e-bost i  
Dafydd Whiteside Thomas  
Bron y Nant, Llanrug  
01286 673515  
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.  
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC

Marged Rhys  
marged\_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Hafan,  
Llanrug (672221)  
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Sw'n yr Engan,  
Brynrefail (01286) 872306  
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,  
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.  
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,  
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-  
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,  
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.  
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,  
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,  
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,  
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,  
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,  
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)  
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n  
Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622  
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,  
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2018

| Rhifyn   | Copi i law      | Bwn delu           | Ble         |
|----------|-----------------|--------------------|-------------|
| Medi     | Sul 26 Awst     | Gwener 7 Medi      | Llanrug     |
| Hydref   | Sul 23 Medi     | Gwener 5 Hydref    | Penisarwaun |
| Tachwedd | Sul 21 Hydref   | Gwener 2 Tachwedd  | Llanberis   |
| Rhagfyr  | Sul 18 Tachwedd | Gwener 30 Tachwedd | Caeathro    |

LLYTHYRAU

Apel Sain Ffagan

Annwyl ddarllenwr,  
Mae Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn dathlu 70 mlwydd  
oed eleni. Hoffem glywed eich atgofion o'r adeiladau neu am eich  
ymweliadau â'r Amgueddfa dros y blynyddoedd.

Fuoch chi yn yr Amgueddfa yn y dyddiau cynnar? Ddaethoch chi i  
Sain Ffagan ar drip ysgol? Ydych chi'n gyn-aelod o staff?

Caiff yr Eisteddfod Genedlaethol ei chynnal yng Nghaerdydd fis  
Awst a braf byddai eich gweld yn Sain Ffagan. Dewch i rannu eich  
atgofion gyda ni.

Amgueddfa pobl Cymru yw Sain Ffagan, ac rydym eisieu clywed  
eich stori chi.

Gallwch hefyd rannu eich atgofion gyda ni ar y cyfryngau  
cymdeithasol gan ddefnyddio #CreuHanes neu cysylltwch â Elen  
Phillips, Curadur Hanes Cyfoes a Chymunedol elen.phillips@  
amgueddfacymru.ac.uk

Cofion

Sioned Hughes,

Ceidwad Hanes ac Archaeoleg, Amgueddfa Cymru

Ariennir yn rhannol gan  
Lywodraeth Cymru

£20 Glyn a Iona Richards, 5  
Tai Caradog, Deiniolen

£50: Er cof am Ceridwen  
Jones, Eryri, Llanrug.

£20.00: Dennis a Mair  
Davies, Llanberis, er cof  
am y ddiweddar Dilys Wyn  
Morris, Deiniolen; Glyn  
a Iona Richards, 5 Tai  
Caradog, Deiniolen

£10:00: Mairwen Baylis,  
Llanberis; Dienw Llanberis

£5.00: Rhianwen Jones,  
Deiniolen; Mrs Nannie  
Evans, Plas Pengwaith,  
Llanberis, gynt o 26  
Bryntirion, Penisarwaun;  
Hefin Bryniog Jones,  
Balaclava, Llanberis.



Gwersyll yr Urdd, Llangrannog,  
Llandysul . SA44 6AE  
21 Mehefin 2018

Annwyl gyfeillion

Ysgrifennaf atoch i dynnu sylw at ddigwyddad y bydd Urdd Gobaith Cymru yn ei chynnal yn ystod  
Eisteddfod Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd fis Awst eleni.

Hiraethu am hafau hyfryd Llangrannog

Ar nos Iau, 9fed o Awst am 5.30yp ym Mhabell y Cymdeithasau (Y Senedd), Eisteddfod Genedlaethol  
Caerdydd bydd trafodaeth banel yn rhannu atgofion a straeon am hafau a dreuliodd yng Ngwersyll yr  
Urdd Llangrannog, boed hynny fel staff, swog neu breswylwr.

Rydym hefyd yn estyn gwahoddiad cynnes i holl ddallenwyr y papur i ymuno yn y sgwrs drwy rannu  
eu straeon. Croeso i bawb ddod a lluniau ac atgofion a bydd posib i ni gofnodi'r rhain fel rhan o broses  
archifo'r Urdd.

Yn cadeirio fydd Angharad Mair gyda'r panel yn cynnwys Steffan Jenkins (cyn-gyfarwyddwr y  
gwrsyll), Ian Gwyn-Hughes a nifer o gyn-wersyllwyr, swogs, staff ac enwogion eraill.

Os hoffech gadarnhau eich presenoldeb gellir gwneud hynny drwy ebostio [llangrannog@urdd.org](mailto:llangrannog@urdd.org)  
Fel y gwyddoch efallai, yn 2022 bydd yr Urdd yn dathlu ein canmlwyddiant felly dyma gyfle i edrych  
yn ôl ac edrych ymlaen ...

Diolch

Lowri Jones, Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Llangrannog

Diolch o Ddinorwig


Derbyniwyd diolchiadau gan Marian Jones, Dinorwig, i bawb  
fu'n gyfrifol am gynnal yr "Eco" yn fisol ers dros bedwar cant a  
hanner o rifynnau. Mae dyled y tim rheoli yn fawr i bawb sy'n  
helpu i ysgwyddo'r baich – gan gynnwys Marian ei hun, wrth  
gwrs.

Rheoliadau Diogelu Data

Daeth y Ddeddf Diogelu Data  
hon i rym ar 25ain o Fai 2018.  
Mae Pwyllgor Gwaith "Eco'r  
Wyddfa" wedi llunio polisi  
rheoli a diogelu data, ac wedi  
penodi Swyddog Gwarchod  
Data, sef Goronwy Hughes,  
"Eithinog", 14 Afon Rhos,  
Llanrug. Mae croeso i chwi  
gysylltu os am gopi o'r polisi.



# Cofeb wedi ei cholli o gopa'r Wyddfa



Ddeng mlynedd yn ôl yn 2008 a chyda bendith awdurdodau a Phrif Weithredwr y Parc Cenedlaethol ar y pryd, Mr Aneurin Phillips, mentrodd Cymdeithas y Dywysoges Gwenllïan godi llechfaen ar gopa'r Wyddfa i gofnodi Llywelyn Ein Llyw Olaf a'i ferch Gwenllïan a hynny ar fan uchaf ei diriogaeth fel Arglwydd Eryri. Y bwriad gwreiddiol oedd gosod y gofeb yn Hafod Eryri ond nid oedd hynny'n bosibl.

Bu'r gofeb yn gwneud ei lle ar y copa am ddeng mlynedd er y bu raid ei glanhau o graffiti rhyw dair blynedd yn ôl

Erbyn heddiw, a rhywdro ynghanol y gaeaf diwethaf, diflannodd y gofeb hon yn llwyr ac i ble yr aeth, ni wyddys! Nid oes ôl fandaliaeth, a thebyg bod y gofeb wedi syrthio o'i lle neu wedi ei thynnu a bod rhywun neu rywrai wedi ei chymryd. Cafwyd gwybodaeth gan y Parc Cenedlaethol bod rhywun wedi ei gweld rhywdro yn ystod y gaeaf, ond adroddiad annelwig braidd yw hwn, ger yr hen stablau sydd ar lwybr Llanberis ar dop Allt Goch, ond sawl mis yn ôl bellach.

Tybed os gŵyr rhywrai yn yr ardal hon rhywbeth am dynged y gofeb? Boed y wybodaeth yn eildwym neu yn brofiad personol. Fe'i lluniwyd gan Ieuan Rees, Llandybie, sy'n artist a llythrennwr adnabyddus.

Os oes gennych unrhyw wybodaeth medrwch gysylltu â'r Gymdeithas trwy anfon e-bost i'r cyfeiriad isod neu ffonio 07980 567824

E-bost: [gwenllian1337@gmail.com](mailto:gwenllian1337@gmail.com)

Ffurfiwyd Cymdeithas y Dywysoges Gwenllïan yn 1996 i gofio Gwenllïan, unig blentyn Llywelyn ap Gruffydd. Fe'i cipiwyd, yn naw mis oed, yn dilyn llofrudiaeth ei thad, gan y Brenin Edward I a'i chludo i Briordy Sempringham yn swydd Lincoln. Yno, bu'n byw y gweddill o'i bywyd fel lleian a thebyg na chafodd erioed wybod am ei thras. Bu farw yn 1337.

## Yn ystod y mis aeth heibio ....

- Gwell hwyr na hwyrach, a gwell hwyrach na dim o gwbl! Do, o'r diwedd daeth datganiad ynglŷn â Ffordd Osgoi Caernarfon. Rhagwelir y bydd y gwaith yn cychwyn fis Tachwedd eleni ar gost o £135 miliwn dros gyfnod o dair mlynedd.
- Llywodraeth Cymru yn cysidro gwahardd smocio y tu allan, megis ar dir ysgolion, ysbytai ac mewn parciau a chaeau chwarae. Y gobaith yw y bydd y ddedfwriaeth wedi ei chwblhau erbyn 2019. Plismona'r rheoliadau newydd fydd y broblem, fel mae unrhyw un sydd wedi ymweld ag Ysbyty Gwynedd yn sylweddoli: er gwaethaf y rhybuddion 'Dim Ysmygu', mae cleifion (amryw mewn cadeiriau olwyn) yn eistedd y tu allan i fynedfa'r ysbyty yn creu cymylau o fwg. Iechyd da; hwnna ydio.....
- ..... ac i barhau â thema iechyd da, daeth rhybudd diweddar ynglŷn â gordewdra, a Chymru yn anffodus ar frig y rhestr, gyda nifer helaeth o'r boblogaeth yn 'eithriadol dew', sef 7 stôn yn drymach nac a ddylent fod! Os pery patrymau bwyta y Cymry fel hyn, yna bydd un o bob deg o'r boblogaeth yn eithriadol dew erbyn 2035. Ac y mae oblygiadau hynny i'r unigolion a'r Gwasanaeth Iechyd yn hynod ddifrifol. Rhagwelir cynnydd sylweddol mewn afiechydon megis clefyd siwgr, problemau'r galon a phwysedd gwaed uchel.
- Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a datganiad fod holl glybiau ieuentid Gwynedd i gau, cafwyd peth cyfaddawdu yn ddiweddar gydag addewid o £50,000 wedi ei glustnodi hyd Ebrill 2019 er mwyn

galluogi rhai clybiau i barhau gyda chymorth cyngorau lleol. Amser a ddengys beth a ddigwydd yn ein bro ni.

- Dadlau mawr am y rhaglen 'Question Time' a ddarllledwyd o Gaernarfon. Ar wahân i Leanne Wood, doedd gan yr un o'r aelodau eraill ar y panel unrhyw gysylltiad â'r ardal nac â Chymru (onibai iddynt fod ar eu gwyliau yn Llandudno rywbyrd). Roedd yn amlwg hefyd mai prin oedd y bobl leol yn y gynulleidfa, a dangoswyd fod un aelod wedi ei 'blannu' yno i fod yn llais asgell dde.
- Llywodraeth Westminster yn parhau i balu 'mlaen efo Brexit sy'n creu rhaniadau o fewn y Blaid Geidwadol sydd mewn grym, heb son am y pleidiau eraill. A'r holl balu yn creu twll enfawr a gymer flynyddoedd i Brydain ddringo allan ohonno. Cwmniau fel Airbus, BMW, Nissan a Siemens (sy'n cyflogi tua 400 yn Llanberis) yn bygwth symud oddi yma gydag oblygiadau colli swyddi i filoedd o weithwyr a'u teuluoedd.
- Ieuentid y fro yn cael llwyddiant arbennig yn Llanelwedd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Roedd gwobrau'n cael eu hennill ar bob diwrnod o gystadlu, ac amhosib oedd cadw cofnod a chysylltu â phawb er mwyn cael llun. Rhaid oedd dibynnu ar rieni, hyfforddwyr, arweinwyr adrannau ac ysgolion i roi gwybod i'r "Eco" am y llwyddiannau. Ond llongyfarchion un ac oll ar ddangos fod talentau arbennig yn parhau i gael eu meithrin yma. (Mae rhestr llawn o'r enillwyr llwyfan yn nhrefn cystadleuthau ar dudalen 18)



## Ysgol Gynradd



Wythnos Eco. Casglu sbwriel a thwtio o amgylch yr ysgol.



Mabolgampau'r Urdd  
Llongyfarchiadau i'r criw yma yn y mabolgampau'r Urdd.



Blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn casglu sbwriel yn y pentref. @ cadwchgymru'ndaclus



Cyfeiriannu  
Bore braf yng Nglynllifon! Rownd derfynol Cystadleuaeth Cyfeiriannu Arfon, Dwyfor a Meirionydd. Y plant i gyd wedi mwynhau



Eisteddfod yr Urdd  
Dyma y criw a fu'n brysur yn cystadlu yn yr eisteddfod. Llongyfarchiadau i Rhodri ddaeth yn drydydd efo gitar yn ogystal a Melltith a ddaeth yn gyntaf efo grwp pop. Daeth y parti llefaru hefyd yn ail yn ystod yr wythnos.



Beicio  
Tour de Llanrug. Dosbarth Meithrin wedi cael pnawn arbennig ynyr Wyl Feicio. Diolch i'r trefnwyr am y cyfle.



NSPCC  
Daeth yr NSPCC i gael sgwrs ynglyn â pwysigrwydd siarad a rhannu problemau.



Wythnos Ffair  
Bu wythnos yffair yn brysur gydag amrywiaeth o weithgareddau. Daeth yn agos at 50 i'r daith gerdded nos Lun. Cafwyd helfa drysor lwyddiannus gyda Claire Evans yn ennill. Nos Fercher daeth rhedwyr o bell ac agos i redeg y ras 5k a'r ras hwyl. Nos Iau y bingo a dydd Sadwrn roedd y ffair yn llwyddiannus iawn. Diolch i bawb am eu cefnogaeth!



# Parhad LLANRUG



## Dysgwr y Flwyddyn

Ganwyd Yankier Pijeira Perez mewn pentref bychan o'r enw San Antonio de Cabezas yng Nghiwba. Ei unig iaith hyd 2011 oedd Sbaeneg. Aeth Lowri Williams o Lanrug allan i Giwba i weithio, Roedd hi'n rhugl mewn Sbaeneg cyn mynd yno. Cyfarfu'r ddau yno a maes o law fe'u priodwyd. Dychwelodd Yankier a Lowri i Lanrug yn 2011 a setlo hefo Siân, mam Lowri yn 'Cartref'. Penderfynodd Yankier ddysgu'r Gymraeg a Saesneg ochr yn ochr a gwelsom yn syth fod ganddo ddawn ieithyddol. Mae'n gweithio fel Technegydd Fferyllfa yn Ysbyty Gwynedd a Ceri, ei athrawes Gymraeg yno, a'i henwebodd ar gyfer Dysgwr y Flwyddyn. Mae ef a phedwar dyn arall ar y rhestr fer a chawn y canlyniad yn Eisteddfod Caerdydd ym mis Awst. Pob lwc Yankier! Llongyfarchiadau mawr!

\* \* \* Mae Davyth Fear yn gymydog i Yankier ac y byw yn Brwynog. Fe'i ganwyd ym Mryste a'i fagu yng Nghernyw. Yn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun 1986 roedd yntau ar restr fer Dysgwr y Flwyddyn ac yn cynrychioli gogledd orllewin Cymru. Yn y dyddiau hynny fe rennid Cymru i bedwar rhanbarth. Dim ond am ddwy flynedd y bu Davyth yn dysgu, felly roedd ei gamp yntau yn fawr. Biti na fyddai pob ymfudwr yn dilyn eu hesiampl!

**Cadw Llanrug yn daclus** Bydd cyfarfod yn y Sefydliad Coffa, Llanrug ar fore Sadwrn y 7fed o Orffennaf am 10:00 y bore. Dewch i gefnogi ymgyrch eich Cyngor Cymuned i gasglu ysbwriel i gadw eich pentref yn daclus.

**Diolchiadau** Dymuna Eifion ac Angela, Dafydd, Sarah a'r plant ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli ŵyr bach, Sam, yn ddeg oed. Cafodd lid yr ymennydd pan yn ddeg mis oed ac fe frwydrodd hyd y diwedd a'r wên yn dal yna. Rhannwyd yr arian a gafwyd er cof amdano rhwng Clare House (Wirall) ac Alder Hey, lle y cafodd ofal

arbennig. 'Trwy ddirgel ffyrdd mae'r uchel lôr yn dwyn ei waith i ben'.

## Plaid Cymru Enillwyr Clwb Cant Mehefin

- 1.. Charles Jones, Dwyrws
- 2.. Clifford Williams, Awelon

## Babi

Llongyfarchiadau mawr i Iwan a Rachel, Ffordd yr Orsaf, ar enedigaeth merch fach, Mabli Grug, chwaer i Ena Glwys a wyres i Now ac Ann Gruffydd, Hawddamor. Pob bendith.

## Diolchiadau

Dymuna teulu'r ddiweddar Ceridwen Jones, Eryri, Ffordd yr Orsaf, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain, hen Nain a chwaer annwyl iawn. Diolch yn fawr am y rhoddion ariannol tuag at Feddygfa Waunfawr. Diolch hefyd i'r Parchedig Marcus Robinson am ei wasanaeth teimladwy; i Eurwen Darwood wrth yr organ ac i Gwynfor a Jane o gwmni E.W. Pritchard am y trefniadau trylwyr a pharchus.

**Profedigaethau** Estynnwn gydymdeimlad diffuant iawn yn eu colled enfawr i Elwyn, Dewi, Llion ac Elin, gŵr a phlant Linda Griffith, 14 Glan Moelyn.

Bu farw Linda yn 45 mlwydd oed ar Fai 19fed. Mae'n golled enfawr i'r teulu, ei thad, brawd a chwaer, ei rhieni yng nghyfraith, Will a Sally Owen, Lôn Glai, a'r teulu yma a'i ffrindiau oll.

Hefyd, yn sydyn iawn ar Fehefin 12fed, bu farw Ken Jones, Cenlys, Rhes Rhyddallt, yn 79 mlwydd oed. Gŵr cariadus, Liz a brawd i Len a'r diweddar Jacqueline a Gwynfor. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â chwi yn eich profedigaeth fawr. Roedd Ken yn berson prysur iawn ac yn hoff o weithgareddau fel bowlïo, ac yn aelod o'r clwb yng Nghaernarfon. Roedd yntau a Liz yn gerddwyr cyson. Colled fawr i chi, Liz, a'r teulu a'ch ffrindiau.

**Hafan Elan** Gan mai o Ysgol Brynrefail y daw y cinio ar ddydd Mawrth, pan fydd yr ysgol ar gau dros yr haf ni fydd cinio ar gael. Efallai y trefnir

## Rhedeg i Godi Arian



Llongyfarchiadau i Diane Williams, Caernarfon ac Eirianwen Thomas, Llanrug ar gwblhau Ras 5k Llanrug a chodi bron i £500 tuag at Gymdeithas Alzheimer. Dyma'r tro cyntaf i'r ddwy gystadlu mewn unrhyw ras, a dymunant ddiolch i bawb a fu mor garedig a'u noddi.

dewis arall yn achlysurol. Bydd y Bore Coffi dydd Mercher yn dal ymlaen.

**Llongyfarchiadau** mawr i Nanw Llwyd, Y Goedlan, sy'n chwarae'r fflwt, ar gael ei derbyn i Gerddorfa Genedlaethol Gogledd Cymru. Fe fydd yn brysur yng ngwyliau'r haf ar gwrs preswyl gyda'r gerddorfa yn y Waun. Byddant yn cyflwyno dau gyngerdd ddiwedd yr haf. Pob dymuniad da, Nanw, a diolch o galon i'w hathrawes, Miss Rebecca Bateson, o Wasanaeth Cerdd William Mathias yng Nghaernarfon.

## Eglwys Sant Mihangel

**Tê Gardd.** Cynhelir y tê gardd blyneddol a stondinau gwerthu yn Bron y Nant, Pontrhythallt ar bnawn Sadwrn, 7fed o Orffennaf rhwng 1.30 a 4.00. Croeso cynnes i bawb.

**Mynwent yr Eglwys.** Mae'r toriad cyntaf eisoes wedi ei

gwblhau, a'r fynwent wedi tacluso. Bydd yr ail doriad yn cael ei wneud yn ystod Gorffennaf a'r trydydd ym mis Hydref. Byddai swyddogion yr Eglwys yn hynod ddiolchgar o unrhyw roddion ariannol tuag at y gost o dalu am y ddau doriad nesaf. Gellir anfon unrhyw gyfraniadau at y Trysorydd, Mrs Beryl Roberts, 20 Glanffynnon (Ffôn: 01286 677163) Gyda diolch ymlaen llaw am eich cyfraniad.

**Llongyfarchiadau** i Nia Haf am ei llwyddiant yn dod yn drydydd yng nghystadleuaeth Tlws y Ddrama yn Eisteddfod yr Urdd.

**Capel y Rhos.** Llwyddodd plant y Clwb Sul i gasglu cyfanswm o £150 tuag at Gymorth Cristnogol yn dilyn eu taith gerdded nodedig ddiweddar.

## Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol gan Fudiadau Gwirfoddol. Mae ffurflen gais i'w gael i lawrlwytho ar Gwefan Cyngor Llanddeiniolen, neu ar gais gan y clerc. Ceisiadau i gyrraedd y clerc dim hwyrach na 30ain Medi. Bydd angen cynnwys Mantolen Ariannol Gyfredol wedi ei ardystio gyda'r cais i sylw:

Eleri Bean, Bwthyn Isaf, Deiniolen, Gwynedd.  
LL55 3LS

eleribean@btinternet.com

## Parhad LLANRUG

**Merched y Wawr** Sadwrn, Mehefin 16, diwrnod ein gwibdaith a hynny ar ddiwrnod hirfelyn tesog braf. Croesawyd 22 o aelodau gan Meirwen a balch oedd pawb o weld Linda wedi gwella ar ôl y ddamwain a hefyd Helen wedi'i chodwm hithau, Anfonwyd ein cofion anwylaf at Myfanwy a da deall ei bod yn teimlo'n well wedi ei thriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Ein dymuniadau gorau hefyd i Ann Wilson Roberts sydd wedi bod yn yr ysbyty. Ein dymuniadau gorau i tithau, Bethanne, wedi triniaeth yn yr ysbyty. Roedd pawb yn gweld dy golli gan dy fod mewn cyfarfod yn Aberystwyth. Llongyferchir chdi ac Idwal ar eich beirniadu prysur yn yr adran Dawnsio Gwerin yn Eisteddfod yr Urdd. Diolchir hefyd i Bethanne ac Ann Lloyd am gynorthwyo ar Stondin Merched y Wawr. Fel cangen rydym yn hynod werthfawrogol o ymrwymiad Bethanne i gangen Llanrug a Phwyllgor Rhanbarth Arfon. Dymuna Bethanne ddiolch yn arbennig i'w chydswyddogion am wneud y gwaith o Lywyddu mor hawdd. Cytunir i ni gael blwyddyn hynod o ddifyr ac amrywiol. Rydym mor lwcus fod Bethanne wedi cytuno i lywyddu eto o Fedi 2018 i Mehefin 2019. Llauer o ddiolch.

Llongyfarchiadau mawr i Heulwen a Deiniol, Penisarwaun, ar ddod yn nain a thaid am yr eildro. Ganwyd merch fach arall, Anni Deiniol, i Rhian ac Urien, chwaer fach i Myfi Deiniol a nith fach arall i Mari Deiniol a gorywes i Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt, Penisarwaun.

Llauer o ddiolch i'r aelodau am gymryd rhan yn y Bowlio Deg, roedd pawb wedi mwynhau'r cymdeithasu. Bu cystadlu ar gyfer Sioe Llanellwedd yn Nhregarth nos Wener, Mehefin 29. Diolchir i'r ffyddloniaid am gynrychioli'r gangen, fe gawn y canlyniadau yn y rhifyn nesaf.

Ein llongyfarchiadau hefyd i Ann a Now Lloyd, ar enedigaeth wyres fach, Mabli Grug.

Darllenwyd llythyr gan Mary Roberts, Llywydd Rhanbarth Arfon, yn diolch i aelodau Merched y Wawr am y cyfraniadau clodwiw i weithgareddau'r canghennau. Diolchir i Pat Jones, aelod o'n cangen ni, am gytuno i fod yn Is-Drysorydd Rhanbarth ac yn Drysorydd o fis Medi ymlaen.

Hyderir y byddwn yn parhau i groesawu'r Dysgwyr i'n plith ac yn rhoi pob anogaeth iddynt i feistrolir iaith ac ymdoddi i'r bywyd Cymreig fel y gallwn, maes o law, ymfalchio ein bod yn rhan o'r ymgyrch i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2010.

Mae gwaith nodedig yr Is-bwyllgor Anabl yn parhau drwy'r Distawrwydd Nodedig a'r Ffair

Haf gyda diolch eto i aelodau ffyddlon o gangen Llanrug. Y mae ymroddiad nifer o aelodau o'r gangen hon yn glod mawr i ni a mawr yw ein diolch iddynt.

Y clod mwyaf y gall unrhyw gangen ymfalchio ynddo yw cael aelod o'r gangen yn cael ei hurddo ddydd Mercher, Awst 8fed, yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd am 11.30 yn Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr. Llongyfarchiadau mawr iawn i ti, Meirwen, aelod gweithgar ac wedi dal bron bob swydd ers y blynyddoedd cynnar a hynny gyda phroffesiynoldeb ac urddas. Ein dymuniadau gorau i ti a mwynha dy ddiwrnod. Bydd cyfle i longyfarch Meirwen ym mis Hydref yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon.

Wedi diwrnod difyr a chymdeithasol fore Sadwrn, Mehefin 16, diolchodd Meirwen i Carys a Gwenda am lwyddo i drefnu trip llawn hwyl a llawn dyfalu i ble roeddem yn mynd. Bu ymweld â Tweedmill yn plesio pawb - digon o amser am rywbeth i'w fwyta ac i wario! Erbyn hyn roedd pawb wedi'u hargyhoeddi mai 'Llaeth y Llan' oedd y syrpreis nesaf! Ac ni chawsom ein siomi gyda chroeso mawr gan Gareth a Falmai Roberts, perchnogion y ffatri laeth enwog.

Lleolir 'Cartref Llaeth y Llan' ym mhentref bychan Llanefydd yn Ninbych. Tŷ fferm o'r unfed ganrif ar bymtheg yw Tal y Bryn - fferm 50 acer ac yma y dechreuodd Gareth Roberts fagu gwartheg ac yna'n methu gwybod beth i'w wneud â'i gynnyrch.

Cyfarfu Gareth â Falmai a chyda gwybodaeth Gareth am gynnyrch bwyd a llefrith a gwybodaeth byd busnes gan Falmai, cychwynwyd Llaeth y Llan yn 1985. Mae'r fenter wedi ehangu o'r sinc a'r llaethdy i'r ffatri lle y defnyddir llefrith lleol. Mae'r cynnyrch bellach i'w gael mewn gwahanol flasau a gwahanol feintiau potiau. Ceir potiau 125g a 450g mewn 7 gwahanol flas, yn cynnwys un naturiol. Yn wir gellir cael potiau hanner galwyn, bwcedi hefyd - ar archeb, wrth gwrs. Y mae dau flas newydd erbyn hyn, sef lemwn ac un naturiol hefo mêl lleol.

Wedi sgwrs ffraeth gan Gareth cawsom De Cymreig a chyfle i'w holi am y fenter a'r cynnyrch sydd yn cael ei werthu drwy Brydain a'r gwledydd tramor. Wedi cael ein tywys o gwmpas y ffatri cafwyd cyfle i brynu'r gwahanol iogwrt.

Dymunir diolch i Glyn, y dreifar hwyliog, am ei amynedd a'i ofal ohonom. Dymunir gwyliau hapus i bawb. Gwelwn chi yn y Sefydliad Coffa ar Fedi 11fed - yr ail nos Fawrth o'r mis am 7.30. Croeso cynnes i aelodau newydd.

## CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**Capel Caethro** Ar ddydd Sul, Gorffennaf 1af, am 2 o'r gloch gwasanaethir gan y Parch .Marcus Wyn Robinson ac yn ystod y gwasanaeth gweinyddir y Cymun. Am 3 o'r gloch cynhelir Cyfarfod Swyddogion.

Ar ddydd Sul, Gorffennaf 15fed, am 2.00 gwasanaethir gan Mr John Roberts.

Ni fydd gwasanaethau yn y capel fis Awst a dyma gyfle i fynychu lleoedd o addoliad tra ar ein gwyliau.

**Llongyfarchiadau** Daeth sawl llwyddiant i ieuenctid Caethro yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanellwedd. Roedd chwech o'r pentref yn Band Ysgol Syr Hugh Owen ddaeth yn drydydd, sef Luned, Elan, Martha, Malan, Dafydd a Sion Dafydd. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd.

Hefyd roedd Malan a Martha yn aelodau o gôr merched Ysgol Syr Hugh Owen o dan 13 oed ddaeth yn ail i Ysgol Cwm Rhondda, a hawliwn ran o lwyddiant Betsan Ceiriog, Erw Wen, ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth Unawd o Sioe Gerdd, oedran 14 i 25 o dan adain Canolfan Berfformio Cymru, Caerdydd a'r Fro. Da iawn chi i gyd.

**Tynfa Mis Mehefin** 1af (111) £40: N. Morris, 7, Bryn Gof; 2il (25) £25: Hannah Hughes, Llyn Gele; 3ydd (32) £15: Llinos Griffiths, Eryl Cottage; 4ydd (89) £5: Derwyn a Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf.

**Clwb Merched** Ar ymweliad â chwmni Halen Môn, Brynsiencyn, yr aeth aelodau o'r clwb i ddiweddu rhaglen y flwyddyn. Yn ystod sgwrs a fideo ddiddorol iawn gan Eluned clywsom am ddatblygiad y cwmni, a'u hawydd i warchod yr amgylchedd ar y naill law a swyddi lleol ar y llaw arall. Wedyn daeth cyfle i flasau halennau sawrus ac i brynu nwyddau chwaethus o waith crefftwy'r Gymru. Cawsom swper yn Nhafarn y Bont, Porthaethwy, a diolchwyd i'r swyddogion am eu llafur trwy y tymor.

Mynegwyd pryder fod y nifer sydd yn mynychu y clwb wedi gostwng yn sylweddol ers tro bellach ac mae hyn yn achosi embaras wrth groesawu siaradwyr o safon. Oes angen clwb merched ifanc neu gangen o Ferched y Wawr yng Nghaeathro?

Penderfynwyd cyfarfod nos Iau, Medi 20ed, yn y Capel am 8 o'r gloch i drafod dyfodol y clwb, ac mae croeso mawr i unrhyw ferch o unrhyw oed ddod i leisio barn.

Buasai'n braf meddwl bod y clwb yn goroesi.

**Profedigaeth** Trist yw cofnodi marwolaeth Mr T. Elwyn Griffiths, Erw Wen gynt, a Phlas Garnedd, Llanfairpwll, un a gyfrannodd yn helaeth i Gymreictod, i'r Eisteddfod Genedlaethol ac i Gymdeithas Cymru a'r Byd. Roedd yn un o'r grŵp bychan a sefydlodd Undeb y Cymry ar Wasgar yn Eisteddfod Pen y Bont ar Ogwr yn 1948 a daliodd i fynychu yr Eisteddfod bob blwyddyn hyd at 2009, record go arbennig. Cofnodir mwy o hanes bywyd Mr Griffiths yn rhifyn Ebrill 2018 o'r Eco, ac yn y gweisg, ar achlysur ei ben-blwydd yn 100 oed a ddigwyddodd ar Fawrth 10fed. Roeddem yn falch ohono yng Nghaeathro ac anfonwn gydymdeimlad at y teulu yn eu colled.



**POSH PAWS**

**TACLUSO CWN**  
Busnes Newydd Lleol

**PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10**

**DYDD SUL 8yb-4yp**  
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen  
(01248) 671382 • 07935324193  
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

**SAMARIAID**

Mae

**Llinell Gymraeg**

**0300 123 3011**

ar gael bob nos  
rhwng  
7.00pm ac 11.00pm



**Clwb 300** Enillwyr y Clwb am fis Mai oedd: £30: Rhian Griffith, 6 Tŷ Hen; £20: Raymond Edwards, Melin y Wig; £10: Sion Wyn, Dôl Gwyrfa.

**Sefydliad y Merched** Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed o Fehefin croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, Mrs Amanda Jones ar ran Tŷ Gobaith, Glan Conwy, sydd yn mynd o amgylch gwahanol ardaloedd i siarad am yr angen mawr i godi arian tuag at y lle arbennig yma. Eglurodd yn fanwl a theimladwy iawn am y gwaith ardderchog mae'r gweithwyr yn ei wneud yno. Mae gofyn am berson arbennig iawn i allu gwneud y gwaith anodd pan mae plant bach dan eu gofal. Dywedodd hefyd mor hapus yw y plant a'r ieuencid er mor wael ydynt. Mae'r cyfle i rieni'r cleifion yma gael ychydig o seibiant yn eu gofal amdanynt o help mawr iddynt gan wybod bod y plant yn hapus. Soniodd hefyd am yr ystafell arbennig sydd yno, pan mae claf wedi marw, lle mae'r teulu yn gallu galaru gyda'i gilydd mewn preifatrwydd. Roedd yr aelodau i gyd yn teimlo bod y sgwrs yma wedi bod yn agoriad llygaid i'r gwaith eithriadol o garedig mae'r gofalwyr yma yn ei wneud. Diolchodd Catherine iddi am roi o'i hamser i achos mor ardderchog.

**Yr Urdd** Da iawn i'r rhai fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a llongyfarchiadau i Erin Wyn, wyres Rhian Gorffwysfa, ar ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth Càn Werin ac roedd yn un o'r grŵp Ymgom buddugol dan 12 oed. Llongyfarchiadau hefyd i Huw Emrys, Gwastadfaes, ar ddod yn fuddugol gyda Rhachel yn y gystadleuaeth Deuawd Offerynnau Chwyth. Hefyd i Guto, Teganedd, a oedd yn aelod o grŵp Cerddoriaeth Greadigol Ysgol Hafod Lon, a ddaeth yn gyntaf. Hefyd gwelsom Leisa Gwenllian a Tomi Llywelyn, wyres ac ŵyr Duncan Brown, ar y llwyfan a Nanw, merch Doctor Elyllt. Daliwch ati i ymarfer eich diddordeb.

Cawn ni, drigolion y Waun, ymfalchio bod gan Osian Wyn,

bardd cadeiriol yr Eisteddfod gysylltiad â'r pentref, roedd ei nain, Agnes, yn un o blant Ty'n Wern, ac mae yn gefnder i Dafydd, Dwyfor. Llongyfarchiadau mawr iddo.

**Trip i Gaerdydd** Bu Guto, Teganedd, a'i gyfoedion yn ei ddosbarth ysgol am drip i ymweld â Chaerdydd oherwydd eu bod wedi gwneud gwaith da ac ennill gwobr Menter i ysgolion.

Roedd wedi mwynhau y profiad yn fawr iawn ac wedi cael aros dros nos yng Nghaerdydd.

**Mwynhau Dawnsio** Llongyfarchiadau i'r genethod o'r pentref sydd yn aelodau o Ysgol Ddawns Anti Karen a fu'n cymryd rhan yn y cystadlaethau dawns ac yn llwyddiannus iawn ym Mhrestatyn yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau** Da iawn Owain Rowlands, Stad Bro Waun, ar lwyddo yn ei gwrs Sylfaen SOTY yng Ngholeg Glynllifon a derbyn cwpan i'w chadwac i gofio am ei ymdrech.

**Llongyfarchiadau** i Marek Rhys, Eryri Wen, Stad Bod Hyfryd, ar dderbyn gradd dosbarth cyntaf yn y Gyfraith yn y brifysgol yn Mangor. Bydd seremoni ei graddio ar 17 o Orffennaf, dridiau cyn ei phen-blwydd yn 21 oed. Dymunwn y gorau i'r ddau ohonoch wrth ichi gamu ymlaen i'r dyfodol gyda'ch astudiaethau.

**Mabolgampau** yr Urdd Llongyfarchiadau i'r rhai fu'n cynrychioli adran y Waun yn y cystadlaethau cylch a sir a phob dymuniad da i Ellie Medi yn y ras 100 metr a'r naid hir i enethod, ac i Gruff Llwyd yn y ras 100 metr i fechgyn yn y Cystadlaethau Cenedlaethol.

**Babanod Bach Newydd** Ganwyd merch fach, Elliw, i Mair a Colin, Stad Bro Waun. Chwaer i Robin, Colin, Dion, Ethan a Jade a wyres fach newydd i Megan Williams a gor-wyres i Mrs Margaret Jones, Teras Glyn Afon.

Merch fach, Nel Angharad, a anwyd i Emma a Gwyn, Cynant, chwaer a ffrind i Cadi Mair, wyres fach i Treflyn ac Anne, Treforfan ac i Cheryl a Graham, Is Eilian.

Croeso mawr i'r ddwy fach a llongyfarchiadau i'r rheini a'r teuluoedd.

**Pen-blwyddi Arbennig** Yn ystod mis Mehefin bu Katie Dale, Stad Tŷ Hen a Jac Davies, Tŷ Capel Croesywaun, yn dathlu cyrraedd eu phen-blwydd yn 18 oed.

Dathlu cyrraedd ei 21 oed fu Jessica Rowlands, Arfon House.

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da ichi i'r dyfodol.

**Llongyfarchiadau mawr** i Mrs Lowri Dunn, fu'n dathlu ei phen-blwydd yn 97 mlwydd oed ddechrau Mehefin. Rydych yn edrych yn dda iawn, Mrs Dunn. Cymerwch ofal mawr.

Yn ystod mis Gorffennaf, bydd Mair Loxten, Ty'n Drwfwl; Tomos Sion, Glyn Garth; Aled Griffith, Stad Tŷ Hen a'r efeilliaid Morgan a Guto, Teganedd, yn cyrraedd eu 18 oed. Bydd Gwyndaf Dale, Stad Tŷ Hen; Gruffydd Rowlands, Tan y Marian; Ffion Mathews, Stad Llys y Waun a Marek Rhys, Eryri Wen, yn cyrraedd eu 21 mlwydd oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i bob un ohonoch.

Hefyd ym mis Gorffennaf bydd Mrs Brenda Jones, Tŷ Ni, yn cyrraedd ei phen-blwydd yn 80 oed a Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan, yn cyrraedd ei 93 mlwydd oed. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch a mwynhewch y dathlu ymysg y teulu a'ch ffrindiau.

**Diolch** Dymuna Karen, Bryn Celyn, ddiolch i rieni plant bach y Cylch Meithrin am y geiriau caredig o ddiolch a'r rhoddion a dderbyniodd wrth iddi adael ei swydd yn y Cylch yma yn y Waun ar ôl nifer o flynyddoedd o wasanaeth.

**Gwellhad** Dymunwn wellhad buan i Kieran, 11 Ael y Bryn, sydd wedi brifo ei fraich; i'w frawd Kily sydd wedi anafu ei goes; i Osian, 10 Ael y Bryn, sydd wedi treulio cyfnod byr

yn Ysbyty Glan Clwyd wedi iddo gael anaf. Hefyd i Efa, Bryn Melyn, wedi iddi anafu ei hysgwydd; i Eric, Hen Gapel, sydd wedi torri ei fraich ac i Ianto, Arosfa, sydd hefyd wedi anafu ei fraich. Gobeithio yn fawr y byddwch yn gwella ac yn mwynhau gwyliau yr haf. Mae'n dda gweld Cain Thomas, Tan-y-Foel, yn gwella wedi iddo dderbyn triniaeth yn yr ysbyty ym Mangor.

Dymunwn wellhad buan i Rhian, Stad Tŷ Hen, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Mae Ela a'r hogia yn gwneud eu gorau i'w helpu a maent yn ofalus iawn o'u mam. Derbyniodd Iola Llywelyn, Teganedd, lawdriniaeth mewn ysbyty ym Manceinion yn ddiweddar. Ers iddi gael dod adref mae'n gwella a chryfhau yn ddyddiol.

Anfonwn ein cofion at Treflyn Thomas sydd yn yr ysbyty ym Mangor yn derbyn gofal. Edrychwn ymlaen i chi gael dod yn ôl atom i'r Waun.

Anfonwn ein cofion hefyd at Simon Lake, Ger y Ffynnon, sydd yn derbyn gofal yn yr ysbyty arbennig yn Stoke, wedi iddo gael damwain erchyll tra'n hyfforddi dringwyr ar wyneb y graig.

**Eisteddfod y Pentref Y** Sadwrn olaf ym mis Mehefin cynhaliwyd Eisteddfod i ddisgyblion yr Ysgol Gynradd. Diolch i bwyllgor yr Eisteddfod ac athrawon yr ysgol am drefnu'r cyfan. Cafwyd prynhawn difyr.

**Casgliad y Cymorth Cristnogol** Casglwyd £667.83c yn y Waunfawr eleni. Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran yn yr ymgyrch ac i bawb a gyfrannodd.

**Gwyliau yr haf** Fe fyddai'n braf tasa'r tywydd yma i'w gael yn ystod y gwyliau sydd bron â dod ond beth bynnag fo'r tywydd mwynhewch y seibiant a chymerwch ofal.

### Gwasanaethau Capel y Waun

Gorff

- 1: John Roberts, Waunfawr
- 8: Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon
- 15: Cyfarfod Aelodau
- 22: Nerys Griffith, Caernarfon
- 29: Dim Oedfa
- Awst - Dim Oedfa
- Medi
- 2: John Roberts, Waunfawr
- 9: Parch Glenys Jones, Pwllheli

## Trysorau Cudd Caernarfon

Colofn yn Papur Dre oedd yr ysbrydoliaeth ar gyfer llyfr newydd am Gaernarfon, ac arddangosfa ffotograffiaeth yn Galeri sy'n cyd-fynd â'r gyfrol. Ac yn fwy na hynny, mae'r gyfrol eisoes wedi ysbrydoli cân a cherdd – ac ap!

Bu Angharad Price yn ysgrifennu am gorneli bach y dref i'r papur am gyfnod, a'r colofnau rheiny ydi cnewyllyn Trysorau Cudd Caernarfon, llyfr deniadol, clawr caled, sy'n uno ysgrifau cain Angharad hefo ffotograffau hyfryd Richard Outram, sydd hefyd yn byw yn y dref.

Nid portreadau o nodweddion amlwg y dref sydd yma, ond y llefydd bach hynny mae nifer ohonon ni'n cerdded heibio iddyn nhw bob dydd: y ffontan ar y Maes, yr Oval, Caergylchu a'r Lôn Las. Mae Angharad hefyd yn hel atgofion am rai pethau sydd bellach wedi diflannu, megis y Lee-Ho Floating Restaurant a chaffi'r Ganolfan Hamdden.

Medd Angharad am y gyfrol, 'Dwi'n ofnadwy o hapus bod y darnau am y dre yn cael eu cyhoeddi'n llyfr gan Wasg Carreg Gwalch, a diolch i Papur Dre am yr ysgogiad i'w sgwennu nhw yn y lle cynta. Ac mae lluniau Richard yn ffantastig!

Mae'r prosiect wedi gwneud i'r ffotograffydd Richard Outram edrych ar y dref â llygaid newydd. 'Hogyn o Fangor ydw i, ond dwi wedi byw yng Nghaernarfon yn hirach nag yn unrhyw le arall. Dwi'n cerdded o gwmpas y dre yn aml, ond er hynny roedd rhai o'r llefydd y mae Angharad yn sgwennu amdany'n nhw yn ddiarth i mi. Mae'r lluniau yn y llyfr yma yn agos iawn at fy nghalon i, a dwi'n falch o'r cyfle i'w harddangos nhw yn Galeri hefyd.'

Cafodd y gyfrol ei lansio – a'r arddangosfa ei hagor – yn Galeri, Caernarfon nos Wener, 8 Mehefin. Roedd dau westai arbennig, sef Gwydion Outram, mab Richard, a ganodd gân wedi'i chyfansoddi'n arbennig ar gyfer y noson, a Rhys Iorwerth, un arall o hogia Caernarfon, a gyfansoddodd gerdd yn ymateb i'r llyfr.

Mae'r gyfrol hefyd yn destun ap arbennig y bu i Angharad ei ddatblygu ar y cyd â Phrifysgol Bangor a'r cwmni Geosho Cyf, mewn cydweithrediad â Chyngor Gwynedd a CADW a gyda chymorth Gwasanaeth Archifau Gwynedd. Drwy gyfrwng yr ap mae'n bosib dilyn taith fer a thaith hirach drwy'r dref, gyda chymorth mapiau rhyngweithiol sy'n datgelu geiriau Angharad wrth i'r cerddwr ddilyn y llwybrau penodedig. Ap dwyieithog yw hwn, a'r ysgrifau wedi eu cyfieithu i'r Saesneg ar gyfer y rhai hynny nad ydynt yn deall Cymraeg. Mae cyfle felly i bobl o bob rhan o'r byd ddysgu mwy am dref hynod Caernarfon!

## Cynefin Cymraeg – annog defnydd o'r iaith yn y maes awyr agored

Yr haf yma bydd dwy o fentrau iaith y gogledd, ar y cyd gyda phartneriaeth amgylcheddol yn trefnu cyfres o deithiau maes fydd yn cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg yn eu gwaith yn y sectorau amgylcheddol ac awyr agored.

Rhwng Mehefin a diwedd Medi bydd Partneriaeth Cwm Idwal, partneriaeth a ffurfiwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri i warchod a rheoli'r Cwm yn cynnal pedair taith maes yn y Cwm ar themâu sy'n cynnwys bioamrywiaeth, daeareg, hanes enwau lleoedd ac agweddau ar dwristiaeth a rheolaeth.

Targedir y teithiau at unigolion sy'n ennill bywoliaeth neu'n gwirfoddoli yn y sectorau awyr agored neu amgylcheddol sy'n byw yn siroedd Conwy a Gwynedd.

Meddai Guto Roberts, Warden Partneriaeth Cwm Idwal: "Mae'r sectorau awyr agored ac amgylcheddol yn tyfu, mae'n allweddol ein bod yn gofalu fod yna ddigon o bobl sy'n gweithio yn y meysydd hynny nid yn unig yn siarad Cymraeg ond hefyd yn ei defnyddio o ddydd i ddydd yn eu gwaith.

"Mae Cwm Idwal yn cynnig ei hun yn berffaith fel ystafell ddosbarth awyr agored i ni ddehongli pob agwedd ar dirwedd, planhigion, bywyd gwyllt a threfnadaeth ieithyddol y rhan yma o Eryri i bobl sy'n gweithio yn yr awyr agored."

Hyrwyddir y teithiau gan Fenter Iaith Conwy a hunaniaith y fenter iaith yng Ngwynedd.

Dyweddodd Ifan Llewelyn Jones, Swyddog Datblygu Iaith hunaniaith: "Un o amcanion y mentrau iaith ydi annog mwy o siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn y gweithle."

Ychwanegodd Meirion Davies, Prif Swyddog Menter Iaith Conwy: "Mae Menter Iaith Conwy wedi gweithio ers blynnyddoedd i gynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg sy'n ennill bywoliaeth yn y sector awyr agored, bydd y teithiau yma'n wych i'r gweithwyr hynny ddatblygu'r hyder, y wybodaeth a'r awydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith."

Os hoffai unrhyw un sy'n gweithio, neu'n gwirfoddoli yn y sectorau awyr agored neu amgylcheddol, yn byw yn siroedd Gwynedd neu Conwy fwy o wybodaeth dylent eostio Guto. Roberts@nationaltrust.org.uk








✓Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.

✓Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.

✓Adran teithiau grŵp.

✓Tocynnau rhodd.

✓I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 [www.arvoniaco.uk](http://www.arvoniaco.uk)

## RHOSTIO MOCHYN

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

**AR GYFER POB ACHLYSUR**

**DEWCS MAE O'N FLASUS**

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD  
BEDYDD • DAWNS • GWYLIU  
CIG O FFERMYDD LLEOL  
PARTION RHWNG 40-400!

Cysylltwch a  
**John Brynafon**  
**LLANRUG**  
[www.ydyncig.co.uk](http://www.ydyncig.co.uk)

**675190 • 673188**  
Symudol- 07798 718188

## ECO'r Wyddfa

**Cefnogwch ein hysbysebwyd**



**Arholiadau** Rwyf yn sicr bod y bobl ifanc yn falch o weld diwedd yr arholiadau ond, wrth gwrs, mae amser poenus o'u blaenau yn disgwyl y canlyniadau, gan obeithio y byddant yn hapus efo nhw ac y byddant yn gallu mynd ymlaen â beth bynnag yr oeddynt yn edrych ymlaen i'w wneud. Os na fydd llwyddiant, peidiwch digalonni, gwell lwc y tro nesaf. 'Dyfal donc a dyr y garreg'.

**Pen-blwydd Hapus** iawn i Mrs Megan Morris, Minffordd, sydd yn cartrefu ym Mhlas Garnedd, Llanberis, a oedd yn gant a thri ar 11 leg o Fehefin ac, yn ôl a ddeallaf, bu iddi fwynhau ei hun yn fawr iawn. Cafodd fynd i Fangor at Eirwyn a chael parti bychan efo'r teulu agosaf. Gan ei bod yn ddiwrnod ardderchog o braf bu iddi fwynhau ei hun yn eistedd yn yr haul yn yr ardd.

Llongyfarchiadau mawr, Mrs Morris, a gobeithio am iechyd a bendith i'r dyddiau a ddel. Daliwch ati. Mae'r ardal i gyd yn cofio yn annwyl atoch.

Rhaid i mi ymddiheuro i Marsli, cael ar ddeall gan Eurwyn fod Marsli wedi colli ei gŵr rhyw dri mis yn ôl. Fe fu iddo gael ei gymryd i'r ysbyty o gwmpas y Nadolig ac ni fu dim trefn arno wedyn. Yr oedd Geoff druan i'w weld yn mynd i lawr yr allt o ddydd i ddydd.

Yr oedd i Marsli a Geoff dri o blant, dau o hogiau a un ferch. Un o'r bechgyn yn glyfar iawn ac yng Ngholeg Caergrawnt. Dymunwn bob llwyddiant iddo.

Pan fu farw ei dad yr oedd yn 78 a chryn dipyn o feddwl ganddo o'r plant. Y maent yn byw yn St. Helens. Oherwydd ei phrofedigaeth nid oedd Marsli wedi gallu dod i weld ei mam yn ddiweddar ond ar 11 leg o Fehefin am y tro cyntaf ers ei phrofedigaeth daeth i'w gweld ac yr oedd y ddwy yn hynod o falch o weld ei gilydd ac am i'r diwrnod bara am byth. Gobeithio dy fod wedi gallu torri'r garw ac y byddi am ddod yn fuan eto i weld dy fam.

Ymddiheuraf unwaith eto iti, Marsli, gan nad oeddwn yn gwybod a gobeithio fod gennynt lawer o bethau yr wyt yn ei gofio ac a ddaw â gwên bach i'th wyneb. Gobeithio y cei iechyd a bendith i dy gario drwy'r brofedigaeth lem a lle y daw Mam i ben y rhestr unwaith eto. Yn meddwl llawer amdanat ac yn cydymdeimlo yn fawr â chdi a boed iti gael nerth oddi uchod i gario ymlaen. Beth

am ddod i'r hen ardal eto, yr wyf yn sicr y cei groeso mawr a phawb yn falch o'th weld. Cofion annwyl atoch: Eirwyn a Marsli a Nancy (gwraig Erwyn) wedi bod yn hynod o garedig hefo'u mam ar hyd y blynyddoedd ac yn dal i fod.

**Marwolaeth** Dyma fi unwaith eto yn gorfod cyfeirio at un o blant yr ardal a fu farw ar y 9fed o Fehefin yng Nghartref Dwyntfa, Bontnewydd. Cyfeirio yr wyf at Winifred, gynt o Minffordd. Unig blentyn y diweddar Mary a Bob Morris. Bu ei thad yn gwerthu llefrith yn yr ardal am gyfnod. Yr oedd Wini yn 80 mlwydd oedd, bu iddi briodi â Tomi o Gaernarfon ac fe anwyd iddynt ddau o blant, sef Sion sydd yn dal i fyw yng Nghaernarfon a Bethan, sydd yn byw yn Bristol efo'i gŵr.

Bu i Wini a'i diweddar ŵr, Tomi, gadw siop sglodion a physgod yn Ffordd Llanberis, Caernarfon, am rai blynyddoedd gyda chymorth gan ei ddiweddar fam. Ar ôl marw Tomi bu i Wini symud i fyw i'r Hendre.

Bu Sion yn hynod o garedig efo'i fam o dan amgylchiadau digon dyrys ar rai adegau a daeth y diwedd yn sydyn iawn.

Cynhaliwyd ei chynhebrwng ar ddydd Mawrth, 19 Mehefin yng Nghapel Gorffwys, Ffordd y De, Caernarfon. Yna fe roddwyd ei chorff i orffwys hefo'i diweddar ŵr ym mynwent Llanbeblig, Caernarfon.

Cydymdeimlwn yn fawr iawn hefo Sion a Bethan a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth ac yn eu colled drom o golli mam. Boed ichi gael nerth ac iechyd i ddal y golled yn ystod y dyddiau tywyll yma. Wini, 'Cwsg a gwyn dy fyd'.

**Gwyliau** Yr ydym yn awr yn edrych ymlaen at wyliau'r haf, gan obeithio am dywydd braf a dipyn o haul.

Yn ydym hefyd yn edrych ymlaen am yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Tybed sut eisteddfod a fydd? Mae yn rhaid dweud y bydd yn wahanol ond yr eisteddfod i mi yw cerdded y maes a dod ar draws pobl na welais mohonynt ers llynedd. Dod ar draws hen ffrindiau a chael rhyw sgwrs hefo hwy a dal i fyni hefo blwyddyn o newyddion. Rhaid aros i ddisgwyl sut eisteddfod a fydd hi.

Felly dymunaf wyliau hapus a dedwydd i bawb gan gofio na fydd Eco y mis nesaf.



**Hywel Williams**  
Aelod Seneddol  
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

**Swyddfa Etholaeth**  
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE  
01286-672076  
neu  
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR  
01248- 372948  
williamshy@parliament.uk

**mudiad meithrin**  
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar Welsh early years specialists

**Sgiliau Newydd, Cyfle Newydd**

**CWRS NEWYDD: Medi 2018 - Awst 2019**

**Eisiau gweithio gyda plant ifanc?**  
Cyfle i ennill cymhwyster Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn rhad ac am ddim mewn lleoliad blynyddoedd cynnar

Cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymuno yn y cynllun hyfforddi arbennig yma.

Dyddiad cau: 01/06/2018

01970 639 601  
www.meithrin.cymru/lefel3  
www.twitter.com/dipl3gofalplant  
lefel3@meithrin.cymru

Acemir gan Lywodraeth Cymru Funded by Welsh Government

#MeithrinMiliwn



**Siân Gwenllïan**  
Aelod Cynulliad  
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

**Swyddfa Etholaeth**  
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
(01248) 372948  
**Swyddfa Etholaeth**  
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
(01286) 672076  
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



## Teul Bron Elidir a dirgelwch y garreg fedd

Daeth mwy o wybodaeth am y teulu ac am garreg fedd – ond nid yr un wreiddiol! Gyda diolch i Hywyn Williams, (Deiniolen gynt) am y wybodaeth. Er ei bod yn ymddangos fod y teulu i gyd wedi symud i Lundain i fyw, roedd carreg fedd Catherine Jane Parry ( a fu farw yn Llundain yn 1898) rywsut neu’i gilydd wedi diweddu yn seler banc ym Mhenygroes. Felly, ble roedd gweddill y teulu wedi eu claddu?

Bu Hywyn Williams yn chwilio Cofrestr Claddu Llandinorwig, a chael y cofnodion canlynol:

William Parry 24 2 1888 Bron Elidir

Catherine Jane Parry 11 3 1898 City of London

Elizabeth Parry 17 9 1908 54 East Sheen Avenue, Mortlake

Evan Parry 21 12 1938 73 oed. Sandford, Gloddaeth Avenue, Llandudno

Margaret Elizabeth Parry 17 12 1942 73 oed. Sandford, Gloddaeth Avenue, Llandudno.

Ond does dim cofnod am Morris, a fu farw rywdro cyn 1881.

Dengys y cyfeiriadau fod Evan Parry a’i wraig Margaret Elizabeth wedi dychwelyd o Lundain i Landudno rywbryd rhwng 1911 a 1938 (pan fu farw Evan). Roedd ei weddw yno hyd 1942.

Ac y mae carreg ar y bedd!

A dyna ychwanegu at y dirgelwch. Mae’n amlwg fod corff Catherine Jane wedi ei gario o Lundain i Ddeiniolen yn 1898 a’i gladdu gyda’i thad. Mae’n bosib fod carreg eisoes ar y tad ( a fu farw yn 1888), ond i garreg ar ffurf llyfr gael ei gosod ar wyneb y bedd i goffau’r ferch – sef yr un a ddarganfuwyd ym Mhenygroes.

Ar y bedd heddiw mae cofeb o farmor (nid llechen) yn coffau William ac Elizabeth Parry a’u plant, Catherine Jane ac Evan. Mae’n ymddangos felly fod carreg fedd wreiddiol William Parry a charreg Catherine Jane wedi eu symud o’r fynwent a’r gofeb farmor wedi ei gosod yn eu lle. Mae’n fwy na thebyg i hyn ddigwydd wedi marwolaeth Evan yn 1938.

Ond beth am Margaret Elizabeth, gwraig Evan? Mae hithau hefyd wedi ei chladdu yn yr un fynwent, ond nid gyda’i gŵr. Mae hi gyda’i thad a’i chwaer, eto gyda chofeb o farmor. Dyma’r arysgrif:

At rest / THOMAS HUGHES M.D / The Hafodty, Llanberis / for 16 years Surgeon to the Dinorwic Quarries Hospital / Died May 13 1890 aged 55 years / Blessed are the merciful, for they shall obtain mercy / Also his two daughters / C G P JONES who died May 29 1942 / M E PARRY who died Dec 14 1942 / Blessed are the pure in heart / for they shall see God.



Y chwaer yw Catherine Grace Piercy Jones a’i chyfeiriad hi yn y llyfr claddu ydi Kennelworth, Abbey Road, Llandudno. Mae’n amlwg iddi hithau fod yn briod hefyd. Bu’r ddwy chwaer farw o fewn ychydig fisoedd i’w gilydd.

Evan Sidney Parry oedd mab Evan a Margaret Elizabeth. Darganfu Hywyn Williams ewyllys i un o’r enw hwnnw yn Seland Newydd yn 1944. Roedd hwnnw’n briod efo gwraig o’r enw Mary Janet. Cafodd yr ewyllys ei selio yn Llandudno, sy’n awgrym cryf mai aelod o’r teulu oedd hwn hefyd.

Dyma ddychwelyd felly i Benygroes. Beth oedd adeilad y banc yn 1938 neu’n fuan wedyn? Dyna pryd mae’n debyg y cafodd carreg fedd wreiddiol Catherine Jane ei thynnu o’r fynwent yn Neiniolen a’i rhoi i gadw yn rhywle arall – Penygroes o bosib. Holwyd ym Mhenygroes a chael gwybod fod yr adeilad ar un adeg yn cael ei rannu rhwng Banc a Swyddfa Bost. Ond does bosib fod y garreg wedi ei phostio yno?

Parhau mae’r dirgelwch!

Ond mae mwy i’r stori, a gyda mwy o waith ymchwil dros yr haf, gobeithiaf ddod a hanes teulu Bron Elidir yn llawn i chwi yn rhifyn Medi – ac mae’n stori gwerth ei chofnodi.





# Teulu Rhiw Goch, Clwt y Bont.....

Gyda diolch i Ruth Iolen Jones, am wybodaeth ynglŷn â theulu Rhiw Goch ac am Ruth Williams, organyddes Capel Ysgoldy. Dyma’r wybodaeth ganddi:

“Mae Ruth a’i chwaer Maggie (a farwodd yn blentyn bach) wedi eu claddu gyda’i rhieni William Richard (Pencerdd Iolen) a Mary Ann Williams ym mynwent Macpelah, Deiniolen, a Rhiw Goch yw’r cyfeiriad ar y garreg fedd. ‘Roedd Ruth yn chwaer i fy nhaid Robert Williams. Clywais lawer son am Morris Thomas ond heb wybod beth oedd y berthynas. Mudodd Richard, brawd Ruth a Robert (taid) i’r America yn ifanc iawn ac ni welwyd na chlywed ganddo wedyn.

Magwyd mam sef Annie Harries a’i dau frawd Morris Iolen a Richard Harries yn Rhiw Goch gyda’i rhieni Robert ac Ellen Williams (Nel Harries) a taid oedd perchennog Rhiw Goch yr

adeg hynny, 'roeddent yn byw yno pan farwodd Ruth o'r diciâu yn 1929 a mam bryd hynnu yn 6oed. Anti W oedd Ruth i'r plant.

Mae'n rhaid fod mwy nac un copi o'r llun gan fod gan taid a nain un wedi ei fframio ar wal y parlwr gore ar hyd y blynyddoedd; rwyf yn ei gofio'n iawn. 'Rwyn amau hefyd fod y llun ar wal festri capel Ysgoldy. Byddwn yn mynychu'r capel bob gwylia' ysgol pan ar wyliau gyda nain yn Rhiw Goch. Does dim gwybodaeth pwy oedd yn gyfrifol am y llun na'r coffa i Ruth.”

Byddai’n ddiolchgar iawn am wybodaeth ynglŷn â pherthynas y teulu i Morris a Ruth Thomas – os oedd un. (Ceisiais ymateb ar e-bost i Ruth Iolen, ond am rhyw reswm daw neges yn ôl i mi bob tro yn honni nad yw’r cyfeiriad yn bod! Ymddiheuriadau – ond mae croeso i chi ffonio.)

.....  
Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro’r “Eco”, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)  
e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com  
.....

## NEGES I YSBRYDOLI AR DDIWRNOD MERCHED MEWN PEIRIANEG

A hithau’n Ddiwrnod Merched Mewn Peirianeg bu Sian Gwenllian AC Arfon yn dal i fyny gydag un aelod o dîm ‘Gwalch Grymus Cymru’, sef merched o Ysgol Brynrefail, Llanrug a ddaeth i frig cystadleuaeth Formula 1 For Schools yn Malaysia y llynedd. Bu Anna Whiteside Thomas, Tesni Calennig Smith, Beca Medi Jones, Eleanor Edwards-Jones a Elin Worth yn cynrychioli Cymru ac yn cystadlu yn erbyn 35 o wledydd y byd i gyrraedd uchelfannau’r ornest, ar ol ennill rowndiau’r DU.

“Dim ond 8% o’r gweithlu peirianeg sydd yn ferched, a does ‘na ddim rheswm o gwbwl dros hynny heblaw am yr agwedd draddodiadol honno mai swydd i ddynion ydi hi,” meddai Sian Gwenllian, Gweinidog Cysgodol dros Gyfartaledd yn y Cynulliad Cenedlaethol. “Mae merched Brynrefail wedi dangos nad ydi hynny’n wir, gan gystadlu mewn cystadleuaeth creu car rasio – rhywbeth na fyddai hwyrach yn cael ei gysylltu gyda merched. Ond maen nhw wedi profi bod merched yr un mor abl a bechgyn i lwyddo yn y maes yma.”

Roedd rhaid i’r merched gynllunio car rasio cyflym gan greu cynllun busnes a phecyn marchnata i gyd-fynd a’u gwaith, a bu’r profiad yn un sydd wedi eu hysbrydoli yn ol Anna Whiteside Thomas o Lanrug.

"O edrych nol ar y gystadleuaeth rwan, dwi’n sylweddoli mod i wedi elwa llawer ac wedi cael profiadau anhygoel. Mi wnes i ddysgu llawer drwy wneud y gystadleuaeth ac mae o wedi codi fy hyder i yn ofnadwy,” meddai.

"Drwy gwneud y gystadleuaeth dwi wedi meddwl gwneud swyddi na faswn i byth wedi ystyried eu gwneud cynt a dwi’n credu’n gryf fod merched yn gallu gwneud unrhyw swydd maen nhw eisiau ei wneud.

"Mae diwrnod fel Women In Engineering yn bwysig ar gyfer hybu meysydd gwahanol sydd yn fwy tebygol o gael eu galw yn ‘feysydd i ddynion’. Mae diwrnod fel hyn yn annog merched i chwilio am swyddi yn y meysydd yma.

"I ferched ifanc sydd gyda diddordeb mewn maes sydd yn draddodiadol 'i hogia', mi fyswn i yn dweud y dylen nhw fynd amdani. Mae'n bwysig bod merched yn dangos eu gallu ac yn bod yn hyderus yn eu dewis."

Ers cymryd rhan yn y gystadleuaeth mae Anna wedi bod yn annog merched i gymryd rhan mewn chwaraeon gwahanol, gan fod rhagfarn yn bodoli yn y maes hwnnw hefyd ynglyn a beth sydd yn addas neu beidio i ferched.

"Fel rhan o dim Llysgenhadon Aur Gwynedd dwi wedi bod yn helpu efo ymgyrch i hyrwyddo merched mewn chwaraeon. Mae hyn yn ffordd arbennig o geisio rhoi hyder i ferched yn y gobaith y bydd hynny yn ei dro yn dylanwdu ar eu dewis o yrfa."

Bu’r cyfarfod rhwng Sian Gwenllian ac Anna y llynedd pan alwodd yr AC heibio Ysgol Brynrefail i longyfarch y tim yn ysbrydoliaeth i’r ferch ysgol drïo ei lwc mewn cystadleuaeth i gael cysgodi ei Haelod Cynulliad am ddiwrnod fel rhan o ymgyrch i ddenu mwy o ferched i wleidyddiaeth, maes arall sydd yn anghyfartal iawn o ran y rhywiau. Roed Anna’n llwyddiannus a threuliodd ddiwrnod gyda Sian yng Nghaerdydd.

“Mae’n wych fod y cystadleuaeth F1 For Schools wedi bod yn ffasiwn ysbrydoliaeth i ferched fel Anna i feddwl eto am eu dewisiadau gyrfa, a’u bod hefyd wedi mynd ati eu hunain i ysbrydoli merched eraill i wneud yr un peth. Dyma engraifft wych o waith mentora yn digwydd yn naturiol wrth i ferched ddechrau gweld y byd o’r newydd a sylweddoli nad oes pendraw ar yr hyn y gallen nhw ei gyflawni.”



## BETHEL

**Caffi Picio'i mewn** Bydd y caffi ar agor yn y Neuadd Goffa fel arfer ar fore Mawrth 31ain o fis Gorffennaf a bore Mawrth 28ain o Awst. Croeso cynnes i bawb ddod draw am baned, cacen a sgwrs.

**Merched y Wawr** Cawsom noson yn edrych o amgylch Storiel ym Mangor efo Shirley yn ein tywys, diolch yn fawr iawn iddi. Wedyn pryd da yn Y Fictoria, Porthaethwy.

Croesawyd pawb gan ein llywydd Lis a llongyfarchodd Ann ar fod yn nain am y 12 tro, Dyfan a Lucy wedi cael merch fach.

Llongyfarchwyd Sion, mab Anita, ar ei briodas. Anfonwyd cofion at dad Nan yn yr ysbyty. Nid yw wyres Lynwen yn dda; wŷr i Falmi wedi cael damwain; Gwyneth wedi cael triniaeth cataract, a bu i Efa gael damwain pnawn ma a methu bod efo ni am ei bod yn yr ysbyty. Diolchwyd i'r swyddogion a'r pwyllgor am eu cefnogaeth dros y flwyddyn. Diolch arbennig i Jen a'i chwmni, Delwedd, am eu gwaith. Diolch arbennig i Glenys am ei holl waith dros y blynyddoedd.

Dymuniadau gorau i swyddogion a pwyllgor flwyddyn nesaf.

Diolch i Lis, Pen Parc, am ei rhodd garedig i'r raffl. Enillwyd y raffl gan Delyth, Rhian, Rita, Alys a Lis.

Enillwyd y rhif lwcus gan Beryl (mam Delyth)

**Cymorth Cristnogol** Ar ran pwyllgor cyd-enwadol y pentref diolch unwaith eto am yr haelioni. Diolch i'r cyfranwyr ac i'r casglwyr fu'n curo'r drysau. Eleni eto cyrhaeddwyd cyfanswm o £800. Mae'r cyfanswm yma i'w weld yn norm yma ym Methel dros y blynyddoedd diwethaf. Ar ran y rhai fydd yn elwa o'ch cyfraniadau llawer o ddiolch.

**Cyfle i Ddweud Diolch** Yn ystod mis Gorffennaf bydd dau ddigwyddiad yma ym Methel i ddangos diolch a gwerthfawrogiad. Ar nos Wener, Gorffennaf 13, bydd cyfle i ddiolch am wasanaeth dros 22 mlynedd – rhan helaeth ohonynt fel Prifathrawes – i Nia Guillemin. Ceir noson gymdeithasol ac adloniadol gan unigolion a phlant yr ysgol. Cynhelir y noson yn y Neuadd Goffa ac mae tocynnau ar gael yn yr Ysgol.

Fel sy'n hysbys bellach bydd Siencyn a Glenys Griffiths, Llwyn, yn codi pac ac yn symud i lawr i'r de rhywbryd yn ystod mis Awst. Dros 34 o flynyddoedd bu'r ddau yn gefn sylweddol i fudiadau'r fro ac i Gapel Cysegr fel swyddogion a blaenoriaid. Mae achlysur wedi ei drefnu ble gallwn fel pentrefwyr werthfawrogi eu cyfraniad diflino i sawl agwedd o fywyd y pentref. Fe gynhelir 'te bach' yn festri'r Cysegr ar bnawn Sul, Gorffennaf 8ed, rhwng 3 a-5pm. Mae croeso i unrhyw un alw i mewn i gymdeithasu a dangos ein diolchgarwch am wasanaeth rhyfeddol mewn sawl cyfeiriad.

**Clwb Bro Bethel** Gyda'r tywydd ar ei orau pa well ffordd i ddathlu pen-tymor na thrip i ganol Eryri a phryd o fwyd blasus i ddiweddu'r daith. Y rhan gyntaf i'r 35 aelod a ffrindiau oedd taith i Gonwy, ac orig o gerdded siopau a phaned. Ymlaen wedyn i Landudno a theithio'n ddi-dâl diolch i'r pas bws ar y trên i Flaenau Ffestiniog. Yr oedd golygfeydd Dyffryn Conwy ar eu gorau wrth i ni deithio'n hamddenol gyfochrog ag Afon Conwy. Arwyddocaol oedd arhosiad y trên yn Nolwyddelan a'i chastell hynafol. Eiliad i feddwl mai yn y castell yma y derbyniwyd y newyddion am farwolaeth Llywelyn. Oddi yma hefyd y cipiwyd y dywysoges Gwennllian a hithau ond yn flwydd oed i'w encilio yn Sempringham. Y diwrnod canlynol i'r trip oedd diwrnod Santes Gwennllian. Wedi orig yn 'Stiniog gan syllu yn benodol ar y datblygiadau celfyddydol ar y Sgwâr, yn ôl ar y bws a thaith i lawr i Borthmadog. Welsoch chi 'rioed griw yn heidio mor gyflym i siop hufen-ia enwog y Port! Gorffen y daith yn nhafarn Glandwyfach a chwip o bryd i ddiweddu diwrnod hamddenol braf a werthfawrogiwyd gan bawb. Diolch i Anne Elis a Mary Wyn Jones am y trefniadau ac, wrth gwrs, i Bysus Derfel – neu bys fawr newydd Derfel – am ein cludo'n gyfforddus. Braf oedd clywed y gyrrwr – fel dysgwr – yn ymarfer ei Gymraeg led-led y dydd.

Yng Nglandwyfach diolchodd y Llywydd, Marcus Robinson, i bawb oedd wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd i dymor llwyddiannus arall. Diolch i'r sawl a gyfrannodd wobrau at y raffl. Mae'r 'botel win' yn dal yn wobwr boblogaidd! Cyfeiriodd Marcus at gyfraniad gwerthfawr Glenys Griffiths fel ysgrifenyddes y clwb dros sawl tymor. Cyhoeddodd y bydd Mary Wyn Jones yn olynu Glenys. Eisoes mae'r gwaith o lunio cyfarfodydd tymor nesaf ar waith. Y bwriad yw cynnal mwy o'r cyfarfodydd 'ar daith' fel petai o'r pentref. Pa well rheswm felly i ddenu aelodau newydd. Dyma griw hwyliog, siaradus. Dewch draw atynt.

**Clwb Ffermwyr Ifanc** Cynhaliwyd y Rali Flynyddol ar dir Fferm Garth, Llanrug. Mae clwb Caernarfon yn cyfarfod yn rheolaidd yn

y Neuadd Goffa ar nos Lun ers sawl tymor bellach. Braf cyhoeddi eu bod yn dal i gynnal y safonau ac yn denu aelodau er y toriadau cignoeth yn y grant canolog yn ddiweddar. Hwy, fel y clwb 'adref' oedd yn stiwardio eleni. Hwy hefyd, wedi cyfrif y marciau, oedd pencampwyr y Rali. Yn sgil y llwyddiant yma, bydd rhai aelodau o'r Clwb yn cynrychioli Rhanbarth Eryri mewn gwahanol gystadlaethau yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd ddiweddd Gorffennaf.

**Cofion** Dymuna trigolion Seion a ffrindiau eraill anfon eu cofion at Gwenda Hughes yng Nghartref Willow Hall, Caernarfon.

**Chwysu ac Aros** Erbyn hyn bydd y tymor arholiadau wedi dod i ben, a'r hir-ddisgwyl am y canlyniadau. Gobeithio bod y disgyblion wedi llwyddo ac y cânt gyfle i ddilyn llwybr penodol boed yn waith neu addysg bellach. Yn wir, fe ddaeth 'tywydd arholiadau' go iawn eleni.

**Ras Bethel** Eleni cynhelir y ras 7Km o hyd ar nos Fercher, Awst 8ed, gan gychwyn o'r Neuadd Goffa am 5.30pm. Oherwydd poblogrwydd y ras, gofynnir i'r sawl sy'n meddwl cystadlu i gofrestru o flaen llaw.

**Bbl mae'r Elifant?** Oes mae 'na elifant ym Methel bellach! Nid y creadur mawr, ond yr enw newydd ar yr hen Tŷ'n Clwt. Y rheswm mae'n ymddangos yw mai yr olygfa sy'n wynebu'r perchennog o agor y llenni yw'r Mynydd Mawr ger Waunfawr, neu Mynydd Elifant ar lafar! Gwreiddiol.

**Cronfa Calonnau Bethel** Diolch o waelod calon i'r nifer a gyfrannodd at gael ail beiriant diffibriliwr i'r pentref. Bellach mae'r peiriant wedi ei osod ar fur y Neuadd Goffa.

**Haelioni** Mae aelodau Clwb Bowlio Dan-Do Bethel yn hynod o falch o dderbyn nawdd o £1000 gan gwmni First Hydro. Defnyddir yr arian i bwrcasu offer safonol ar gyfer ail dymor y clwb yn y gynghrair.

**Apel** Weithiau rhaid ailadrodd ac ailadrodd cyn bod y neges yn cyrraedd adref. Felly dyma ail apelio. Onid all rhai perchnogion tir sydd ag eiddo ar gorneli drwg dorri y tyfiant fel y gall cerddwyr a modurwyr weld yn glir. Bydd yn rhy hwyr pan fydd plentyn ar feic yn cael ei daro wrth fynd o gwmpas cornel. Hawdd yw beio unrhyw gyngor am ddiffyg, ond mae dyletswydd ar unigolion hefyd i ystyried eu cyfraniad at ddiogelwch y cyhoedd yn ein hardal.

**Cyngor Cymuned – Swydd Wag** Caed datblygiad annisgwyl yn ystod y cyfnod diweddaraf yma gan fod y cyn-gynghorydd Cymuned Sion Jones – a ymddiswyddodd rhai misoedd yn ôl oherwydd ei anfodlonrwydd o'r modd yr oedd y Cyngor yn ymdrin â materion Bethel – wedi gwneud cais i ailymuno â'r cyngor.

Fe drafodir y sefyllfa yng nghyfarfod y cyngor ddechrau Gorffennaf.

**Pwyllgor Pentref Bethel** Roedd y cyfarfod cyntaf wedi ei gynnal. Fe wnaed cais am adroddiad o'r Pwyllgor ar gyfer yr Eco, ond ni ddaeth adroddiad i lawr cyn i'r rhifyn yma fynd i'w wely. Gobeithiwn am adroddiadau yn y rhifynnau nesaf.

**Ras Trawsgwlad yr Urdd** Daeth Gwen Williams o Ty'n Rallt, Seion, yn 3ydd yn y ras yn y Faenol yr wythnos diwethaf allan o 76 o blant (blwyddyn 3).



### Eisteddfod yr Urdd

Unwaith eto eleni fe'n syfrdanwyd gan safon y cystadlu, ac eto daeth ieuencid y fro â'r tlysau gartref. Y wobwr gyntaf eto eleni i Angylion Kelly, ein dawnswyr penigamp. "Anyone here seen Kelly" meddai'r hen gân. Wel do, Cymru gyfan. Da iawn, chi. Yr un modd Owain Llestyn Thomas am unwaith eto arddangos ei ddawn offerynnol arbennig iawn. Gwobr gyntaf yn bendant. Daeth yr ail wobwr i Fand Pres Ysgol Brynrefail oedd yn cynnwys sawl un o blant Bethel. Cafwyd perfformiad aeddfed iawn hefyd gan Gwion Jones yn llefaru. Dyma un i gadw golwg arno yn y dyfodol. Diolch hefyd i'r sawl fu'n hyfforddi ac annog.



## NEWYDDION O'R YSGOL



Yn rhan o'r gweithgareddau cadw'n iach bu pob dosbarth yn cwblhau sesiwn gwirio eu beic er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i fod ar y ffordd. Tipyn o waith darllen a deall y cyfarwyddiadau.



Bu dosbarth Gwyrfai ar ymweliad i Llanystumdwy i gael profiad byw o'r ysgol ers talwm. Roedd hyn yn dilyn ein gwaith dosbarth ar fywyd yn Ysgol Bethel ers talwm. Taith fuddiol iawn a phawb wedi llwyddo i osgoi y gansen diolch byth!



Llongyfarchiadau i'r Pwyllgor Eco ar eu llwyddiant yng nghynllun Teithiau Iach. Wedi llwyddo i gael y plac efydd a'r lefel arian bron a'i chwblhau. Da iawn chi.



Llongyfarchiadau i'r disgyblion a lwyddodd i gael y WOBR AUR am feicio/ sgwtera BOB DYDD yn ystod y Big Pedal



Llongyfarchiadau i fechgyn a genethod blwyddyn pedwar a bechgyn blwyddyn tri am fynd ymlaen i'r rownd derfynol i Wrecsam hefo'r tenis. Llongyfarchiadau i bob disgybl a fu yn cystadlu.



Bu holl ddisgyblion yr Adran Iau yn rhan o gynllun swim safe ar y Fenai. Profiad gwych o gael gwisgo 'wetsuit'a mentro i'r Fenai gan ddysgu sut mae achub eu hunain ac eraill sydd mewn perygl allan ar y dwr. Pawb wedi mwynhau yn arw ac wrth eu boddau hefo'r bag o anrhegion.



Llongyfarchiadau i'r holl blant a gymerodd ran yn yr wythnos cerdded i'r ysgol. Braf gweld cymaint o blant yn dangos diddordeb mewn ffyrdd iach o deithio ac edrych ar ol eu cyrff a'u hamgylchedd.



Bl 6 yn mwynhau'r gweithdy llawn bwrlwm hefo'r grwp Plu. Diolch i Bl 6 Waunfawr am ymuno hefo ni. Roedd pawb wedi mwynhau clywed y gwaith gorffenedig yn cael ei berfformio yn Ysgol Brynrefail gyda holl ddisgyblion yr ardal. Profiad arbennig o gael cyd-weithio a chymysgu gyda'i cyfoedion newydd ym Mlwyddyn 7. Cafodd bl6 hefyd ddeuddydd arbennig yn Ysgol Brynrefail yn eu paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu bywydau.



# TUDALEN YR IFANC



Cerddor y Flwyddyn

Derbyniwyd yr englynion hyn gan Norman Closs ddiwrnod wedi i Math ennill Tiws y Cerddor yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanellwedd. "Cyfansoddwr y flwyddyn yn un o hogia' Brynrefs", meddai; "Balchder yn fy hen fro!"

## Math Roberts, Cwm y Glo

Mae dy fod yn ddawns nodau - y delyn  
fel diliau o'i thannau,  
a rhin 'r holl offerynnau  
yw braint cydymdeimlad brau...

Yno daeth dy ddagrau di - o dy ddoe,  
dy ddawn gyfansoddi  
a'th ddiolch fel pe'n golchi  
y lleddf a'r llon - llef o'r lli.

Yn dy gof, bu stôr dy brofiad, a rhaid  
mynegi'r holl gariad  
yn fawlgan cyn-lymraniad  
o'i rhodd hen - cei gwsig rhyddhad...

Math Roberts – Enillydd Tiws y Cerddor, Eisteddfod yr Urdd 2018

Math Roberts – Enillydd Tiws y Cerddor, Eisteddfod yr Urdd 2018

Rydym yn dy adnabod fel cerddor talentog, gan ennill gwobrau lu mewn eisteddfodau ar sawl offeryn. Ond yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni cês dy wobrwyo am dy gyfansoddi. Pryd wnaeth dy ddiddordeb mewn cyfansoddi ddechrau?

Mae'n debyg bod fy niddordeb mewn cyfansoddi wedi dechrau bron mor fuan â'r diddordeb mewn cerddoriaeth. I mi mae'n rhan fawr o'r perfformio 'dw i'n hoffi'i wneud yn y lle cyntaf. 'Dw i'n tueddu i ysgrifennu cerddoriaeth y bysw'n i fy hun yn licio'i chwarae a gwrando arno ac felly anodd oedd peidio cyfansoddi a dweud y gwir.

Dywed ychydig am gefndir y darn buddugol.

Mae 'Cwsig' yn ddarn tri symudiad i ddau biano. Mae'r darn wedi'i ysgrifennu er côf am fy nhaid, Alan Wheway bu farw yn 2010; mae'r tri symudiad yn lled-adlewyrchu elfennau o fywyd. Mae'r tri symudiad 'Y Deffro', 'Y Ddawns', ac 'Yr Huno' yn seiliedig ar yr alawon a chaneuon gwerin 'Deffrown Deffrown', 'Dadl Dau' a 'Pwt ar y Bys'.

Wnes di yn ddiweddar ennill cystadleuaeth yn yr Ŵyl Ban Geltaidd ar y delyn. Ydy elfennau gwerinol yn ymddangos yn dy gyfansoddiadau o gwbl?

Yn sicr, fel y soniais uchod mae'r tri symudiad yn seiliedig ar gerddoriaeth werin. Mae'n siŵr bod hi'n anodd i mi wahanu'r ddau fath o gerddoriaeth 'dw i'n diddanu ynddyn nhw, gwerin a chlasurol, ac felly naturiol yw bod y ddau'n plethu yn fy nghyfansoddi.

Ti'n dod o dylwyth cerddorol iawn. Ydy'r cefdir cerddorol yma wedi dylanwadu arnat mewn ffordd benodol?

'Dw i'n cofio chwarae'r piano am y tro cyntaf ar lin fy nhad yn ddwy oed felly mae'n siŵr bod cael cerddoriaeth yn y tŷ drwy'r adeg bron wedi dylanwadu arna'i mewn ffyrdd na alla'i ddychmygu! Yn dweud hynny, mae fy mrodyr a'n chwiorydd i gyd wedi dilyn trywydd eitha gwahanol; chwaraeon, coginio, actio, sinematograffi, ond eto 'da ni gyd yn licio chwarae rhyw offeryn neu'i gilydd.

Ers mis Medi rwyf ti wedi bod yn astudio cerddoriaeth yn Nholeg Lincoln yn Rhydychen. Sut mae'r profiad o astudio yno yn cymharu gyda bro'r Eco?

Rhywbeth 'dw i'n licio'i 'neud ydy cymharu'r ddau le a sylwi bod gen i'r un tueddiadau sgen i adra yn fan'ma hefyd; 'dw i'm yn sylwi harddwch yr adeiladau a'r tyrrau mawr nes i rywun dynnu fy sylw tuag atynt, yn yr un modd dydw i ddim yn gwerthfawrogi harddwch Eryri nes mod i'n dod yn ôl i ganol y mynyddoedd! Yn sicr mae'r cyfle o fod mewn lle llawn pobl sy'n mwynhau cerddoriaeth cymaint â finnau yn wych! Ond dwi wrth fy modd yn dod nôl i gael neud panad iawn pob gwylia!!





## Ysgol Gymuned Penisarwaen

**Trip i Lan y môr** Fel rhan o'u thema'r Tymor yma trefnwyd i fynd â phlant y cyfnod Sylfaen i Dinas Dinlle pnawn dydd Llun, Mehefin 11eg. Treuliwyd amser ar y traeth yn casglu gwahanol bethau, cyn cael hufen iâ blasus a chwarae yn y parc cyn cychwyn yn ôl i'r ysgol. Pnawn bach arbennig o dda a'r tywydd yn fendigedig. Diolch i'r plant i gyd am ymddwyn yn dda iawn ac i bawb am eu cymorth.

**Ymweld â'r Ysgol Uwchradd** Cafodd Bl 6 y cyfle i fynd ar eu hail ymweliad ac Ysgol Brynrefail dydd Llun, Mehefin 25ain. Dymunwn y gorau i Guto, Elis, Branwen, Ela a Rebecca pan fyddant yn cychwyn eu haddysg yno ym Mis Medi.

**Gweithdy** Mae disgyblion blwyddyn 6 wedi mynychu gweithdy gyda'r grŵp "Plu" yn ddiweddar. Yn dilyn y gweithdy cyfansoddodd "Plu" dair cân fel rhan o'r prosiect pontio cynradd / uwchradd eleni. Cafodd holl ddisgyblion blwyddyn 6 y dalgylch gyfle i berfformio'r caneuon gyda "Plu" yn Ysgol Brynrefail ar y 25ain o Fehefin. Cafodd pawb bleser mawr yn dysgu am y chwedlau lleol ar gân, yn ogystal â chanu i ddathlu ein hetifeddiaeth a'n hiaith. Y plant bellach yn edrych ymlaen at gael mynychu'r ysgol Uwchradd ar ôl yr haf.

**Symud Dosbarthiadau** Bydd Dydd Mawrth, Gorffennaf 10fed, yn ddiwrnod prysur iawn yn yr Ysgol pan fydd pawb yn cael cyfle i symud i fyny i'r dosbarth y byddant ynddo ym mis Medi. Yn ogystal gwahoddwyd y plant a fydd yn mynychu'r Ysgol am y tro cyntaf yn y dosbarth meithrin yma am y bore. Gobeithio y bydd pawb yn mwynhau'r profiadau yma yn fawr iawn.

**Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen** Cynhaliwyd Cymanfa Ganu i agor gweithgareddau wythnos y Carnifal yn yr Eglwys Nos Sul 1/7/18 am 6:30. Bu rhai o'r disgyblion yn cymryd rhan a diolchwn i'r rhieni am eu

cefnogaeth.

**Mabolgampau** Gobeithir cynnal y mabolgampau pnawn dydd Iau, Gorffennaf 5ed, am 1:15 o'r gloch os bydd y tywydd yn caniatáu. Croeso cynnes i bawb ddod draw i gefnogi'r plant. Mae'r "Cyfeillion" wedi trefnu gwahanol bethau i godi arian i'r ysgol yn ystod y pnawn. Bydd cyfle i brynu raffl a diodydd ffrwythau ayyb, felly cofiwch fod croeso mawr i chwi yma a gwerthfawrognwch eich cefnogaeth i'r ysgol.

**Trip diwedd Tymor yr Haf** Dydd Mercher, Gorffennaf 18fed, byddwn yn mynd i Gelli Gyffwrdd am y diwrnod. Gobeithiwn am dywydd braf.

**Bydd yr ysgol yn cau dydd Gwener, Gorffennaf 20fed. Dymunwn wyliau haf hapus a diogel i bawb.**

**Cronfa'r Pensiynwyr** Enillydd y bêl bonws mis Mai oedd Twm Elis Jones, Llanfairpwll, gyda rhif 3. Llongyfarchiadau!

**Llongyfarchiadau** i Jordan Jones, 24 Bryn Tirion, ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i ti ar gyfer y dyfodol, Jordan.

**Dymuniadau gorau** i Mrs Ann Paterson, 1 Bryn Tirion, ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

**Diolch** Dymuna Jordan ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed.

**Cydymdeimlad** Bu farw Mrs Catherine Williams, 20 Bryn Tirion, yn dawel yn Ysbyty Eryri dydd Sul, Mehefin 10fed. Rydym yn cydymdeimlo gyda Brenda, Ken a Kevin a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain a Hen Nain annwyl iawn. Bydd hefyd yn golled i'w chymdogion yn Stad Bryn Tirion ble bu yn byw am 58 o flynyddoedd.

**Cydymdeimlwn** â Mrs Mair Orrock, Mr Gwyn Jones a Meirion a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar o golli chwaer annwyl, sef Mrs Nesta Beechey, Biwmares.

**Ysgol Sul Bosra** Dymuniadau gorau i Branwen ac Ela fydd yn cychwyn yn Ysgol Brynrefail

ym mis Medi. Diolch i chi, genod, am fod yn aelodau mor ffyddlon a gwerthfawr i'r Ysgol Sul a byddwn yn hynod falch o'ch gweld yn dod atom fel aelodau a chymorthyddion mor aeddfed. Diolch i chithau, rieni, am eich cefnogaeth a'ch anogaeth. Bu'n bleser i Anti Ann ac Anti Liz fod yn eu cwmni. Edrychir ymlaen at eich gweld o rŵan tan fore Sul, Gorffennaf 15. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, Medi 9fed. Croeso cynnes i aelodau newydd.

**Genedigaeth** Llongyfarchiadau i Heledd a Nathan, Cae Corniog Bach, ar enedigaeth efeilliaid, Elsbeth Rhodd ac Isaac Lyn. Pob dymuniad da a phob llawenydd ichi fel teulu.

**Diolch** Dymuna Myfanwy Parry, Tawelfa, ddiolch o galon i bawb am y dymuniadau da wedi ei thriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar.

**Pob Dymuniad Da** i Anna Marie, Gwern Helen, yn ei swydd newydd wedi blynyddoedd o wasanaeth yn Adran Materion Cyfoes y BBC ym Mangor.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned** Tynnwyd Clwb Cant Mehefin a'r enillwyr yw: Beca Gwyn, Llanfairpwll a Rhian Roberts, Penygroes.

Tynnwyd Clwb Cant Gorffennaf a'r enillwyr yw: Christian Branch, Clwt y Bont ac Irfon Hughes, Waen.

Mae modd ymuno â'r Clwb Cant drwy Archeb Banc, sydd ar gael gan y Trysoryddion, Glyn Jones a Leslie Larsen. Mae'r Clwb Cant yn hwb tuag at y gost o redeg y Neuadd a'r Ystafell Gymuned. Croeso mawr i aelodau newydd.

Cynhelir 'Miri Haf' nos Iau, Gorffennaf 18fed, am 6.30 o'r gloch. Bydd stondinau

tombola, raffl a phaned a bisgedi. Bydd cŵn poeth ar werth am 50c. Trefnir gemau gan blant hŷn yr ysgol a threfnir rasys i'r gwahanol oeddrannau a ras o amgylch Llys y Gwynt a chyfle i daflu esgid law. Felly, dowch i ymuno yn y rhialtwch.

**Eisteddfod Bentref** Cynhelir yr Eisteddfod nos Fercher, Gorffennaf 11, am 6.00 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned. Mynediad trwy raglen am £2.00, am ddim i blant.

Cystadlaethau Cartref


Gwaith ysgrifenedig i gyrraedd Ann Ifans, Ysgrifennydd, erbyn Mehefin 29ain. Copiau cystadlaethau 'Hunan Ddewisiad' llefaru a chanu hefyd erbyn Mehefin 29ain.

Gwaith cyfrifiadurol, Arlunio, Gwaith Llaw, Ffotograffiaeth a Choginio i'r Neuadd Gymuned erbyn 15.30 nos Fawrth cyn yr Eisteddfod.

Gorffen Limrig a chreu Brawddeg o'r gair 'PRIF WEINIDOG' i Arwel erbyn nos Lun, os gwelwch yn dda.

Dymuna aelodau'r Pwyllgor ddiolch o galon i Selwyn ac aelodau'r 'Cash Bingo' am y rhodd sylweddol o £165 tuag at gronfa'r Eisteddfod Bentref. Diolch o galon. Diolchir hefyd am bob rhodd tuag at dreuliau'r Eisteddfod ac i swyddogion y Neuadd a Phennaeth a staff yr ysgol.

**Priodas Aur** Dymuna Eurgain, Bedwyr ac Osian a'r teulu 'Briodas Aur' hapus i mam a dad, sef Ann a Dafydd, Sycharth, ar Orffennaf 27ain. Llawer o gariad hefyd gan Gwydion Rhys, Leah Rhiannon a Cian Harri a Lois Rhodd, heb anghofio'r tri ffrind ffyddlon, Arthur, Cai Clustiau a Pawen Lawen. Diolch am eich gofal annwyl a'r cynghorion gwerthfawr.

|                                                                                      |                                                                                                             |                                                 |
|--------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------|
|  | <b>GERAINT OWEN</b><br><b>CARPEDI</b>                                                                       | <b>CARPEDI</b><br><b>TEILS</b><br><b>VINYLS</b> |
|                                                                                      | Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd<br>A Uned 5 Gwyrfaï Mill, Bontnewydd<br><b>(01286)650552 Mob. 07712779475</b> |                                                 |







Llongyfarchiadau i Lysgenhadon Ifanc  
Gwynedd am eu llwyddiant gwirfoddoli  
mewn Seremoni Wobrwyo Mantell  
Gwynedd yn Portmeirion.







## Llwyddiannau'r Urdd – Ysgol Brynrefail – 2018

Unwaith eto fe fu disgyblion yr ysgol yn llwyddiannus iawn yn Eisteddfod yr Urdd a gynhaliwyd eleni yn Llanfair ym Muallt.

Rydym yn hynod falch o lwyddiannau'r disgyblion. Fel y gwelwch bu enillwyr yn y cystadlaethau gwaith cartref yn ogystal â'r cystadlaethau llwyfan. Mae cyrraedd y llwyfan yr Urdd yn andros o gamp ac felly mae dod ymysg y tri gorau trwy Gymru yn wych! Llongyfarchiadau mawr i bawb a lwyddodd i wneud hynny, rydan ni'n hynod o falch ohonoch chi!

Braf hefyd oedd gweld dau gyn-ddisgybl yn dod i'r brig ym mhrif gystadlaethau'r dydd gyda Math Roberts yn ennill Tlws y Cerddor a Nia Haf yn dod yn drydydd ar y Fedal Ddrama.

### Dyma enillwyr 2018:

#### Cystadlaethau Gwaith Cartref

|                                   |                 |      |
|-----------------------------------|-----------------|------|
| Barddoniaeth dan 25 oed           | Buddug Roberts  | 1af  |
| Rhyddiaith BI 10 ac 11            | Leisa Gwenllian | 2ail |
| Rhyddiaith BI 12 a 13             | Seren Bowen     | 2ail |
| Rhyddiaith dan 25 oed             | Seren Bowen     | 1af  |
| Graffeg Cyfrifiadurol BI 7, 8 a 9 | Catrin Beech    | 2ail |

#### Cystadlaethau Llwyfan

|                                        |                                           |      |
|----------------------------------------|-------------------------------------------|------|
| Alaw Werin BI 7, 8 a 9                 | Tomi Llywelyn                             | 2ail |
| Unawd chwythbrennau BI 7, 8 a 9        | Llanw Llwyd                               | 3ydd |
| Ensemble BI 7-9                        | Nanw Llwyd, Mared Llwyd ac Ela Owen Jones | 1af  |
| Unawd Bechgyn BI 7-9                   | Tomi Llywelyn                             | 3ydd |
| Côr deulais BI 7-9                     |                                           | 3ydd |
| Band dan 19 oed                        |                                           | 2ail |
| Unawd Merched BI 10 o dan 19 oed       | Magi Tudur                                | 2ail |
| Deuawd offerynnol BI 13 ac iau         | Rachel Franklin a Huw Williams            | 1af  |
| Llefaru unigol BI 10 o dan 19 oed      | Leisa Gwenllian                           | 3ydd |
| Unawd chwythbrennau BI 10 o dan 19 oed | Rachel Franklin                           | 2ail |
| Monolog BI 10 o dan 19 oed             | Leisa Gwenllian                           | 3ydd |





## Pontio'r Iwerydd Er Budd Ambiwlans Awyr Cymru



(chwith i'r dde): Alwynne T Jones Cadeirydd Côr Meibion Caernarfon, Alwyn Jones, Cydlynnydd Gwynedd Ambiwlans Awyr Cymru a Iolo Thomas - Ysgrifennydd, Côr Meibion Caernarfon

Casglwyd dros £900 i elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn Eglwys y Santes Fair Caernarfon mewn cyngerdd oedd yn pontio'r Iwerydd. Unodd Côr Meibion Caernarfon o Gymru gyda'r University of Northern Iowa Men's Glee Club o Unol Daleithiau America i helpu'r achos da.

Yna, nos Fawrth diwethaf 12 Mehefin, daeth Alwyn Jones, Cydlynnydd Gwynedd, Ambiwlans Awyr Cymru i ymarfer wythnosol hogia Caernarfon yn Galeri, Caernarfon i ddiolch i'r ddau gôr am yr arian.

Meddai "Roedd yr eglwys yn llawn dop a chasglwyd £913 - cyfraniad gwerthfawr tuag y £6.5 miliwn y flwyddyn yr ydym ei angen i gadw ein pedair hofrennydd yn hedfan ym mhob rhan o Gymru."

Ychwanegodd, "Cafwyd perfformiadau rhagorol gan y ddau gôr. Gorffennwyd trwy iddynt gydganu'r emyn Cwm Rhondda, hefo'r myfyrwyr Americanaidd wedi dysgu geiriau'r pennill cyntaf yn y Gymraeg."

Meddai Alwynne T Jones, Cadeirydd Côr Meibion Caernarfon, "Wrth drefnu cyngherddau, rydym yn awyddus i gefnogi elusennau lleol. Cytunodd ein cyd gantorion, yr University of Northern Iowa Men's Glee Club, ar unwaith a'n hawgrym y dylid trosglwyddo holl elw'r cyngerdd i Ambiwlans Awyr Cymru."

Ychwanegodd, "Mae'r Ambiwlans Awyr yn achos agos iawn at ein calon gan fod dau aelod o Gôr Meibion Caernarfon yn gwybod o brofiad personol mor dda yw gwasanaeth yr hofrenyddion coch."

## Enillwyr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Brycheiniog a Maesfed 2018 : Rhanbarth Eryri – Canlyniadau Llwyfan (ni dderbyniwyd canlyniadau gwaith cartref)

Cystadleuaeth: 15 Unawd Bechgyn Bl. 7-9 : 3 Tomi Llywelyn Ysgol Uwchradd Brynrefail,

Cystadleuaeth: 17 Unawd Merched Bl. 10 a dan 19 oed : 2 Magi Tudur Ysgol Uwchradd Brynrefail,

Cystadleuaeth: 25 Côr S.A. Bl. 7, 8 a 9 3 Ysgol Uwchradd Brynrefail.

Cystadleuaeth: 36 Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 6 ac iau 1 Erin Wyn Williams Ysgol Gynradd Gwaun Gynfi.

Cystadleuaeth: 37 Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 7, 8 a 9 2 Tomi Llywelyn Ysgol Uwchradd Brynrefail,

Cystadleuaeth: 43 Unawd Gitâr Bl. 6 ac iau 3 Rhodri Roberts Ysgol Gynradd Llanrug,

Cystadleuaeth: 56 Unawd Chwythbrennau Bl. 7- 9 3 Nanw Llwyd Ysgol Uwchradd Brynrefail.

Cystadleuaeth: 60 Ensemble Bl. 7, 8 a 9 1 Ysgol Uwchradd Brynrefail.

Cystadleuaeth: 64 Unawd Chwythbrennau Bl. 10 a dan 19 oed 2 Rachel Marie Franklin Ysgol Uwchradd Brynrefail,

Cystadleuaeth: 65 Unawd Pres Bl. 10 a dan 19 oed 1 Owain Llestyn, Bethel, Ysgol Uwchradd Tryfan,

Cystadleuaeth: 68 Deuawd Offerynnol Bl. 13 ac iau 1 Rachel a Huw Ysgol Uwchradd Brynrefail,

Cystadleuaeth: 72 Cerddorfa/Band dan 19 oed 2. Ysgol Uwchradd Brynrefail,

Cystadleuaeth: 73 Grŵp Bl. 6 ac iau 1 Melltith Ysgol Gynradd Llanrug, Cylch Arfon, Eryri

Cystadleuaeth: 122 Grŵp Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl. 10 a dan 19 oed 1 Heintus Adran Bethel,

Cystadleuaeth: 126 Grŵp Llefaru Bl. 6 ac iau 2 Ysgol Gynradd Llanrug,

Cystadleuaeth: 131 Llefaru Unigol Bl. 10 a dan 19 oed 3 Leisa Gwenllian Ysgol Uwchradd Brynrefail,

Cystadleuaeth: 144 Ymgom Bl. 6 ac iau 1 Ysgol Gynradd Gwaun Gynfi,

Cystadleuaeth: 156 Monolog Bl. 10 a dan 19 oed 3 Leisa Gwenllian Ysgol Uwchradd Brynrefail,

Cystadleuaeth: 157 Cyflwyniad Theatrïg Unigol 19 - 25 oed 2 Gwion Wyn Jones Adran Bethel,

## Gwersylla Gwyllt?

Mae wedi dod yn boblogaidd iawn yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, sef peidio a defnyddio meysydd gweryslla 'swyddogol'. Rhai o'r problemau sy'n codi gyda'r math hwn o wersylla yw gwaredu sbwriel, cynnau tân a diffyg toiledau. Cafwyd enghraifft yn ddiweddar o babell yn cael ei chodi ar y llain werdd ger Cofeb y Chwarelwyr yn yr Allt ddu, Dinorwig! Yn ffodus gallodd person lleol eu darbwylo (gan ddefnyddio geiriau reit gry' a dechrau datgymalu 'r babell !!) nad oedd y safle'n addas o gwbl.

Mae'r llun uchod yn dangos pabell arall wedi ei gosod ar un o'r lefelau uwchben Llyn Peris a gyferbyn â'r hen farics. Tybed faint o lanast gafodd ei adael ar ôl yno?





Waeth cyfaddef ddim oll! Beth d'wedwch? Ie! tymor y gwanwyn eleni, un a hen lusgodd ei draed cyn dyfod i'n cwr ni o Gymru ein gwlad. A phan ddaeth - y fath gyfoeth o liwiau, ran dail a blodau a gafwyd; hynny yn y gerddi, meysydd, gwrychoedd a choedwigoedd, a'r cyfan fel petaent am wn i am y gorau'n ceisio diolch am gael dyfod eto i'n plith.

Y mis hwn, dyma geisio cadw cwmni i blanhigyn a dyf o'i fwlb tanddaearol, ac maes o law, hynny'n ystod misoedd Mai i Awst, yn cynhyrchu blodau bychain, sy'n serenog-wyn ran eu lliwiau. Y mae iddo ddail llydan. Un arall o deulu'r lili ydyw, ac fe'i ceir yn tyfu'n glystyrau ar fanciau, ymylon coedwigoedd, ochrau ffyrdd a lleoedd llaith. Ni ellwch ddianc rhagddo, hynny ydyw, os oes gennych drwyn go dda! Perthyn arogl cryfiawn i bob rhan ohono. Dyma Graf y geifr. Enwau eraill am y planhigyn yn yr iaith Gymraeg (ydyw! y mae'r hen iaith yn meddu ar drysorfa geiriol) ydyw:

Craf gwyllt, Craf y meysydd, Garleg y brain, Garleg gwyllt, Garleg Mair, Winwnsyn y cŵn, Winwnsyn gwyllt, Winwnsyn y maes a Thriag y tlawd.

Yn Llawysgrif Hafod (cyfeirnod 16,88) sydd ar gadw'n Llyfrgell Ganol ein prifddinas, ceir cyfarwyddyd, sef:

Bwyta craf fis Mai rag y tostedd da yw.

Tostedd ydyw afiechyd, anhwylder, gwewyr, poen, salwch corfforol/meddyliol.

Perthyn yr uchod i'r 14g OC.

Dyna wedyn boio'r enw Homer. Groegwrydoedd o. Cymeradwyai ef ddefnyddio'r planhigyn er mwyn gwarchod bodau dynol rhag ysbrydion drwg.

Twt! twt! rŵan! clywaf chwi'n crochlefain. Twt! twt! meddaf innau i'ch canlyn.

A dyna wedyn Culpepper a'i Herbal. Myn ef bod berwi bylbiau Craf y geifr, a thro'i'r gweddillion yn syrrip, yr union beth i gael gwared o'r fogfa/asthma.

Mi ellir dadlau mai perthyn i oesoedd a fu ydyw'r hyn a gofnodwyd yn Llawysgrif Hafod, a gan Culpepper yn ogystal â Homer, gan mai eich meddyg lleol ydyw'r gorau o ddigon os am ofyn cyngor meddygol. Diddorol, serch hynny, ydyw gweld sut y mae planhigyn fel Craf y geifr wedi'i gynnwys yn yr holl hanes!

## Dathlu penblwydd y Defaid Penfrith



Eifion yn yr arwerthiant



Cennin Eifion yn derbyn y tlws gan wyr a wyres y diweddar Emyr Lewis

Ffurfiwyd Cymdeithas y Defaid Penfrith yn 1968, ac y mae'r brid wedi cynyddu yn ei boblogrwydd ar ucheldiroedd Cymru ers hynny. Yn ystod mis Mehefin dathlwyd hanner canfed penblwydd y Gymdeithas yn Llanfihangel y Creuddyn, Ceredigion a daeth dros 300 o bobl yno. "Mae'r lleoliad yn addas iawn," meddai Eifion Harding o Benisarwaun sydd yn ysgrifennydd aelodaeth y Gymdeithas. "Yn agos yma, yng Ngwesty George Borrow, Ponterwyd y ffurfiwyd y Gymdeithas dan arweiniad y diweddar Arglwydd Geraint Howells."

Roedd arwerthiant arbennig yn cael ei gynnal ar y diwrnod, ble roedd dau ddarlun yn cael eu gwerthu er budd elusennau'r Gymdeithas, sef Sefydliad y Galon a Clic Sargent. Eifion oedd yr ocsiwniar, chafwyd £1,000 i'w cronfa.

Roedd tlws yn cael ei gyflwyno hefyd - Llysgennad Ifanc y Flwyddyn - er cof am Emyr Lewis, Llywydd y Gymdeithas am lawer o flynyddoedd. Yr enillydd cyntaf oedd Cennin Eifion, sydd yn ysgrifennydd y Gymdeithas ers chwe mlynedd.

Llwyddiant dwbl felly i'r tad a'r ferch o Benisarwaun.

## Clwb Cwtsh i ail agor ei ddrysau yn yr Hydref

Bydd cynllun rhad ac am ddim sy'n defnyddio gemau a chaneuon i gyflwyno'r Gymraeg i rieni plant ifanc yn parhau yn yr Hydref ac yn 2019, yn dilyn llwyddiant y cyrsiau cychwynnol a gynhaliwyd yn gynharach eleni.

Cafodd y cynllun, 'Clwb Cwtsh', sy'n brosiect ar y cyd rhwng Mudiad Meithrin a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ei lansio ym mis Chwefror. Cynhaliwyd 78 o gyrsiau blasu fel rhan o'r cynllun, gyda dros 500 o bobl yn mynychu.

Roedd y cyrsiau wyth wythnos o hyd wedi'u hanelu at rieni, gwarchodwyr a darpar rieni. Roedd croeso i'r dysgwyr ddod â'u plant gyda nhw, gan fod Mudiad Meithrin yn darparu adloniant ar eu cyfer. Ar ddiwedd y cyfnod, roedd dysgwyr yn cael eu hannog i ddilyn cyrsiau pellach.

Lluniwyd y cyrsiau gan Nia Parry, sy'n adnabyddus am gyflwyno rhaglenni teledu ar S4C, yn arbennig rhai sydd wedi eu hanelu at ddysgwyr.

Bydd Clwb Cwtsh 2 yn cynnig cyrsiau wyth wythnos newydd mewn dros 70 lleoliad ar draws Cymru yn ystod mis Hydref eleni a chyfres arall o gyrsiau ym mis Ionawr 2019.

Os am ragor o wybodaeth cysyllter ag:

Iola Jones,

Pennaeth Tîm Cyfathrebu a Phartneriaethau

Mudiad Meithrin

Ffôn: 01970 639639

Symudol: 07841 452 607



## Gŵyl Deiniolen a'r Cylch 2018



Cafwyd Gŵyl lwyddiannus eto eleni ac er y bu glaw ar adegau, cafwyd cryn lwyddiant trwy'r wythnos. Cafwyd gwynt a glaw yn ystod y ras 10k nos Fercher, er hynny, fe ymgeisiodd dros 100 eto eleni yn y ras gan gynnwys nifer o drigolion lleol. Roedd y cyngerdd coroni yn noson arbennig yng nghwmni disgyblion ysgol y pentref, a chafwyd hyd yn oed gân gan y frenhines, a oedd yn digwydd dathlu llwyddiant diweddar yn curo'r Alaw Werin yn yr eisteddfod genedlaethol.

Ar y Sadwrn, roedd nifer yn pryderu am y tywydd yn enwedig pan gododd y gwynt a dechreuodd fwrw'n drwm iawn tua diwedd y bore. Er hynny, daeth nifer o drigolion y pentref i weld yr orymdaith ac i'r gweithgareddau yn y cae, roedd eu teyrngarwch yn werth ei weld, diolch i bawb a arhosodd trwy'r

tywydd gwlyb tan ddaeth yr haul allan ddiwedd y pŵn. Roedd nifer wedi mynd i drafferth mawr yn gwisgo i fyny gan wneud y diwrnod yn lliwgar er gwaethaf y glaw cychwynnol.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i'r holl noddwyr a chyfranwyr, i bawb a fu'n gwirfoddoli trwy'r wythnos ac yn bennaf i drigolion y pentref a gefnogodd y gweithgareddau trwy gydol yr wythnos eto eleni. Mi fydd Gŵyl blwyddyn nesaf yn dathlu 10 mlynedd o weithgaredd, gobeithio ceir tywydd gwell i ddathlu'r 10.

Diolch hefyd i holl aelodau'r pwyllgor am eu gwaith di-flno trwy'r flwyddyn a'u brwdfrydedd a'u parodrwydd i roi eu hamser i sicrhau fod gweithgareddau fel yma yn llwyddiant gan ddangos y pentref ar ei orau.

## Gwelliannau i Bentre Helen



Wedi naw mis o waith mae cynllun ar y cyd rhwng Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Chyngor Gwynedd yn dirwyn i ben, a chant ac un o dai ym Mhentre Helen wedi elwa ohonno. Contractwyr Gelli oedd yn gyfrifol am y gwaith gyda nifer helaeth o fechgyn lleol yn cael eu cyflogi. Roedd yr holl dai yn derbyn sustem ddŵr newydd sbon, waliau, ffensys, llwybrau a grisiau. Gwaith arall oedd yn cael croeso oedd gosod dreif i gadw car mewn 50 o dai (nid oedd yn bosib gwneud hynny ym mhob tŷ), a hynny'n lliniaru problemau parcio ar y ffordd gul drwy'r stâd. Roedd ambell i eiddo preifat ar y stâd wedi manteisio ar y cyfle o gael

dreif, ond yn talu am y gwaith. Cost yr holl gynllun oedd £1 miliwn. Roedd Susan Jones, 83 Bentre Helen yn falch iawn o dderbyn y gwelliannau. Meddai "Rydwi'n hapus iawn gyda'r gwaith - a'r gweithwyr, a fu'n hynod drefnus dros y cyfnod y bu'r gwaith ymlaen." Roedd y Cyngorydd Elfed Williams hefyd yn hynod falch o gael hyrwyddo'r gwaith angenrheidiol hwn yn y pentref, ac yn ddiochgariawn i Gartrefi Cymunedol Gwynedd, Cyngor Gwynedd a Chontractwyt Gelli am y gefnogaeth tra bu'r cynllun yn cael ei wireddu.



## Parhad DEINIOLEN

**Ymddiheuriad.** Dymuna'r golygydd ymddiheuro i drigolion Deiniolen am beidio cynnwys gwybodaeth a anfonwyd i'r "Eco" y mis diwethaf, gan gynnwys manylion am Wyl Deiniolen.

**Eglwys Crist** Dydd Sul, Mehefin yr 17eg, yn Eglwys Crist roedd Dydd Rhodd blynyddol yr Eglwys a daeth cynulliad da ynghyd. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Canon Robert Townsend a'r pregethwr gwadd eleni oedd Deon Bangor, Y Tra Pharchedig Kathy Jones. Dyma'r tro cyntaf iddi ddod i Eglwys Crist yn ei swydd fel Deon a derbyniodd groeso gwresog gan bawb. Darllenwyd y llithoedd gan Brian Price ac Eurwen Roberts, yr organyddes oedd Eleri Bean a'r ystlyswyr oedd Celt Williams a Len Jones. Hyfryd oedd cael plant yr Ysgol Sul a'u rhieni yn bresennol a chafwyd eitemau hyfryd ganddynt a diolchir i Gwen Griffith ac Eileen Hughes am eu hyfforddi. Mae'r daflen flynyddol am 2017 allan ac mae'n werth ei gweld a diolchir i bawb am bob cyfraniad hael tuag at fywyd yr eglwys. Diolch i bawb a gyfrannodd at stondin yr eglwys yng Ngharnifal y pentre ar brynhawn Sadwrn, yr 16eg o Fehefin.

**Llongyfarchiadau** mawr hefyd i griw Ysgol Gwaun Gynfi a gipiodd y wobwr gyntaf ar yr Ymgom - Erin Wyn, Erin Lewis, Sion a Jac. Gwych.

Llongyfarchiadau i Cai Owen, Ffordd Deiniol, am arwyddo i dîm Pêl-droed, Llandudno, fydd yn chwarae yn uwch gynghrair Cymru y tymor nesaf. Pob lwc i ti, Cai.

**Diolch** Dymuna Rhianwen ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, arian a'r galwadau ffôn ar ôl damwain a thorri ei chlun yn ddiweddar. Eto diolch yn fawr iawn.

Fe hoffai Glyn Richards, 5 Tai Caradog, ddiolch i'w deulu, ffrindiau, a chymdogion am yr anrhegion, cardiau ac arian a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Diolch o galon.

**Cydymdeimlo** Estynnwn ein cydymdeimlad at deulu y ddiweddar Margaret Elen Jones, Porth y Gogledd, yn eu profedigaeth.

**Casglu Sbwriel** yn y Pentref Diolch i'r holl unigolion a aeth ati dros yr wythnosau diwethaf i gasglu sbwriel o amgylch y pentref. Mae hi'n edrych yn llawer taclusach. Diolch hefyd i'r rhai hynny sydd wedi bod yn gyfrifol am y bocsys blodau hardd iawn sydd wedi eu lleoli o gwmpas o pentref. Diolch i chi i gyd.

## Un funud fach ...

### VAR

Os na fydd Lloegr yn ennill Cwpan y Byd y mis hwn yr un peth a gofir am Rwsia 2018 fydd y defnydd a wnaed o dechnoleg newydd VAR (y video assistant referee sy'n helpu'r dyfarnwr trwy gadw golwg ar sgrin deledu. Ond nid un sgrin chwaith, ac nid un VAR, gan fod i hwnnw dri chynorthwywr, yr AVAR1, AVAR2 a'r AVAR3! Ie, pedwar dyfarnwr cynorthwyol mewn stiwdio i helpu'r dyfarnwr ar y cae. O gofio bod gan hwnnw eisoes ddau 'ddyfarnwr cynorthwyol' a 'phedwerydd swyddog', dyna dîm o wyth. Ychwanegwch at hynny'r ddau 'ddyfarnwr cynorthwyol ychwanegol' (yr AAR) sy'n cicio'u sodlau wrth y gôl mewn rhai gemau, a dyna ddeg dyfarnwr posibl mewn un gêm. Gwelsom eisoes nad yw VAR yn berffaith ac nad yw'r holl dechnoleg yn gwneud pob penderfyniad yn rhwydd i'r dyfarnwyr. Ond y peth mwyaf a ddangosodd VAR i mi yw bod gwaith y dyfarnwyr mor anodd, a bod y mwyafrif ohonynt wedi gwneud gwaith arbennig o dda dros y blynyddoedd. Dylai hynny wneud i chwaraewyr a chefnogwyr pêl droed weld dyfarnwyr mewn goleuni gwahanol a gwerthfawrogi eu gwaith mewn ffordd newydd.

Nid oes angen VAR i wneud i ni weld pobl mewn goleuni newydd. Weithiau, mae'r weithred leiaf yn ddigon. Gall un gair caredig newid ein holl agwedd at y person a'i dywedodd. Gall un gymwynas wneud i ni feddwl yn wahanol am berson, a pheri ein bod yn diolch i Dduw amdano. Ond dro arall, nid rhywbeth a wna pobl eraill sy'n gwneud i ni feddwl amdanynt mewn ffordd wahanol ond rhywbeth ynom ni ein hunain. Pan welwn ein gwendid ein hunain, mi ddechreuwn werthfawrogi cryfder cyfeillion. Pan ddechreuwn weld ein beiau ein hunain, mae pechodau pobl eraill am ryw reswm yn ymddangos yn llai o lawer. Am y math yna o beth yr oedd Iesu'n sôn wrth ein hannog i fwrw'r trawst o'n llygaid ein hunain cyn tynnu sylw at y brycheuyn yn llygaid pobl eraill.

Ac ar hyd yr oesoedd, wrth ddod i gredu yng Nghrist mae Cristnogion wedi dod i weld eu cyd-gredinwyr newydd mewn goleuni gwahanol. Mae pobl nad oedden nhw yn eu deall, neu bobl y buon nhw hyd yn oed yn dadlau â nhw ac yn eu gwrthwynebu yn dod, trwy ras Duw, yn frodyr a chwiorydd y maen nhw'n eu deall a'u gwerthfawrogi ac yn rhannu'r un ffydd â nhw. Ie, diolch i Dduw am y rhodd werthfawr o fedru gweld pobl mewn ffordd newydd.

JOHN PRITCHARD



### Eiteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau enfawr i Erin Wyn a gipiodd y wobwr gyntaf ar yr Alaw Werin yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

**Gwasanaeth Gwres a Plymio**   
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio  
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser  
**Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW**  
**Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718**

**Premier**  
**Y Storfa Premier Llanrug**  
Sgwar Llanrug  
**01286-673108**  
Bwydydd, Dioddydd, Papurau Newydd,  
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost  
**Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm**



## EW CWMY GLO

**Gwellhad Buan** i Aled, Tal Gwynedd, wedi iddo dderbyn llawdriniaeth i'w goes yn ddiweddar. Hefyd rydym yn falch iawn o weld Dylan Evans, Tai Cae Tŷ Capel, wedi gwella ar ôl misoedd o driniaethau yn Ysbyty Glan Clwyd.

**Eisteddfod yr Urdd** Llongyfarchiadau i Math Roberts ar ennill y Fedal Gyfansoddi, hefyd i ddisgyblion Ysgol Brynrefail a ddiolch i bawb am eu hyfforddi.

**Diwedd Tymor** Gyda blwyddyn ysgol arall yn dod i ben a'r tymor arholiadau wedi darford dymunwn lwyddiant a phob dymuniad da i'r rhai sydd yn mynd ymlaen i goleg neu sydd yn dechrau mewn swydd am y tro cyntaf.

**Wedi Gwella** Pleser mawr yw gweld Mrs Nia Oliver, prifathrawes yr ysgol wedi gwella ac yn ôl yn yr ysgol Croeso'n ôl i'n plith, Mrs Oliver.

**Undeb y Mamau** Cafwyd croeso cynnes iawn gan aelodau gyda'r nos yn Feed my Lambs bnawn Llun, 21 Mai. Croesawyd pawb gan Auriel a Pauline a chafwyd gwasanaeth byr. Adroddwyd y Gras gan y Parch Roger Donaldson a chafwyd pryd o fwyd blasus. Cyflwynwyd Dorothy gyda thystysgrif a phlanhigyn gan Auriel am roi 51 i flynyddoedd i'r Mudiad. Diolchwyd i aelodau gyda'r nos am eu croeso.

Ar Sed o Orffennaf bydd y Cyfarfod Blynnyddol yn Eglwys y Groes gyda the yn dilyn.

Terfynwyd y cyfarfod gyda Gweddi'r Arglwydd.

I orffen ein cyfarfodydd am y tymor cyfarfu'r aelodau gyda aelodau gyda'r nos yn Age Concern Bontnewydd bnawn Mawrth, 19 Mehefin. Cafwyd gwasanaeth byr mewn ystafell breifat a derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Louie. Mwynhawyd pryd o fwyd blasus iawn a diolchwyd i'r staff am ei baratoi. Diolchwyd hefyd i Auriel am drefnu'r achlysur. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg.

Cyfarfod nesaf mis Medi.



## Llythyr o Awstralia

Dyma erthygl arall gan Liz Corbett yn son am ymweliad a Chaernarfon ychydig dros flwyddyn yn ol.

Pa Mor Bell ?

Pan glywes i byddai Bootcamp SSiW yn fwrdeistref Caernarfon o'n i'n awyddus i fynd. O'n i 'di bod yn darllen am hanes bwrdeistrefi brenhinol Cymru. Llefydd di-Gymraeg oedden nhw, wedi eu sefydlu gan Edward I o gwmpas ei gestyll enfawr er mwyn cadw'r Cymry i lawr. O'n i'n hoffi'r syniad o aros yn hen fwrdeistref Edward I er mwyn gwella fy Nghymraeg i.

Ond roedd mwy o symboliaeth yn yr wythnos nag o'n i'n disgwyl. Ylwch, dw i 'di bod yn darllen tipyn am Owain Glyn Dwr yn ddiweddar. Efallai wnes i son am y pwnc yn ystod wythnos Bootcamp – dim lot, dim ond unwaith neu ddegwaith. Caernarfon, dych chi'n gweld, oedd lle cododd Owain Glyndwr y ddraig aur – baner Uther Pendragon – am y tro cyntaf. O'n i'n awyddus i godi baner Glyn Dwr ar ben Twthill, a daeth y dysgwyr eraill gyda fi. Bore braf a heulog oedd hi. Roedd pawb yn chwerthin a jocian yn y Gymraeg tra fod nhw'n cerdded lan y bryn. Pan codais i faner Glyn Dwr tu fas i hen furiau castell Edward I o'n i'n meddwl pa mor bell mae Cymru wedi dod.

Wrth gerdded yn ôl i'r dref, o'n i'n darllen bob arwydd, yn trio deall pob gair, yn trio dysgu y mwyaf sy'n bosib mewn un wythnos. Yn meddwi ar y cyfle i fyw yn yr iaith Gymraeg. Roedd un arwydd yn dweud: cerbydau BT yn unig. Beth ydi BT yn ei feddwl, holais fy hun. A dyma fi'n sylweddoli wedyn. British Telecommunications. Troais i o gwmpas i rannu'r joc gyda Bootcampwr arall pan ddaeth dyn diarth tuag aton ni.

'Are you lost?' meddai fe.

'Nac ydw,' medda i. 'Dyn ni'n iawn, diolch.'

'I don't speak Welsh,' meddai fe yn ôl. Ond gwelais i yn ei lygaid fod e'n deall bob gair wnes i ddweud.

Wnes i ail-ddweud fy ateb cyntaf: 'Dyn ni'n iawn diolch.'

Tawelwch. Gwelais i wyneb y dyn yn cochi, ei gen yn tynhau. Welais i'r dicter yn ei lygaid llwyd. Ac wedyn y ffrwydrad. 'I don't speak Welsh!' gwaeddodd ata i. 'What part of that do you not understand?'


Nawr, person eitha styfnig ydw i. Ces i fy magu yn Awstralia, wedi'r cyfan. Do'n i ddim yn mynd i newid iaith achos bod bwli yn grac gyda fi. Ond yr eilaid yna oedd rhyw deimlad, fel y haul y bore, wedi diflannu. Sefyll yno gyda'r dyn crac yn gweiddi arna i, o'n i'n meddwl pa mor bell eto sydd rhaid i Gymru fynd.

\*\*\*

Diolch yn fawr iawn i Aran Jones am ei help gyda'r adolygu.

**ECO'r**  
*Wyddfa*

**Cefnogwch ein  
hysbysebwy**



**GWAITH  
COFFAOL  
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith  
(01286) 672898**

**Cartref  
(01286) 871833  
Symudol 07778 127394**

**Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA**

**Dylan Griffith**  
*Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol*  
**TROS-Y-WAEN PENISARWAUN**

*Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol  
24 Awr y Dydd  
Capel Gorffwys Preifat  
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal*

**Ffoniwch** **ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)**





# Ar ben arall i'r lein

Dim byd ond 'sgota mis yma, a mae huna yn beth dieithr, ond mi fyddai yn crwydro rhyw ychydig ac yn cyfeirio at beth sy'n cael ei arllwys allan o'r Bae 'na yng Nghaerdydd.


Ond i ddechrau, dwi 'di hir ddisgwyl gweld fy hen ffrind Llyn Padarn yn dod ato ei hun, ac eleni 'rwyf yn cael nifer o adrodiadau ar safon 'sgota'r brithyll brown. Yr unig beth oedd o'i le yn fy jig sw oedd absenoldeb y brithyll brown lliw arian oedd iw cael fel arfer yn ghanol y llyn. Wel eleni mae rhai o rhain wedi dod i'r bluen. Pam brithyll arian medda chi, wel dros y blynyddoedd, a 'rwyf wedi cyrraedd oed yr addewid erbyn heddiw, felly dwi'n teimol fy mod gyda digon o brofiad i daflu fy hot i ganol pwll y gwyddonwyr pysgodfaol sydd o gwmpas y lle 'ma fel pla.

Un o ganlyniadau problemau Padarn oedd fod pysgod fel y brithyll a'r torgoch ddim yn gallu goroesi'r tymhorau. Diffyg ocsigen a llygredd yn mygu'r mannau claddu, felly doedd y rywogaeth ddim yn gallu cynnal eu cylch bywyd. Cyn belled a mae'r brithyll brown yn y cwestiwn, cyn problemau glendid dŵr, 'roeddwn wedi sylwi dros y blynyddoedd fod brithyll brown oedd yn cael ei bachu o amgylch y glannau i gyd gyda boliau melyn a smotiau coch ar eu ochrau au chefnau yn ddu. Pan yn gwenud rhain yn barod at y badell 'roedd lleinyn o rawn yn eu boliau. Bysgod oedd yn barod i fwrw grawn gaeaf y flwyddyn hono. Rhai a oedd yn cael eu bachu yng nghanol y Llyn yn enwedig pan fo'r cwch yn driffio'n araf o gyfeiriad ceg yr Afon Goch at y domen lechi ochr Gilfach Ddu. 'Roedd rhain yn liw arian heblaw cefnau du. Ddigon tebyg i frithyll mor. Ond pan oedd rhain yn cael y driniaeth cyn eu ffrio, doedd dim grawn o gwbl ynddynt. Er fod eu cig mor coch ar rhai lliw brown, ac wrth gwrs yn blasu'n ardderchog.

Fy sylwad felly ar hyn i gyd yw, fod cylch brithyll y llyn yn dair blynedd o un bwrw grawn i'r llall. Brithyll arian wedi claddu y gaeaf cynt ac yn cymryd o bosib dwy flynedd i ddod ar reddf genhedlu'n ol. Ar drydedd flwyddyn byddent yn newid eu lliw a magu grawn yn barod at y gaeaf i ddod. A dyma oedd yn absenol, gan fod safon y dŵr ddim yn addas iddynt fyw yn y llyn am dair blynedd.

Mae natur yn eithriadol o graff yn y maes yma, nid yw yn rhoi ei wyau i gyd yn yr un fasged, os buasai hyn wedi digwydd yna mi fuasai wedi bod yn ffarwel ar y pysg godidog yma. Wrth gwrs tydi'r ysgolheigion 'ma ddim yn cytuno. Ond be sy'n ffaith yw gyda troad yn safon y dŵr, mae'r hen hogiau arian 'ma yn ôl.

'Rwyf wedi sylwi eleni fod rhyw Wyl neu gilydd i weld ym mron pob pentref yn y fro. Yn ogystal a Gŵyl Fwyd yma ag acw o gwmpas y lle hefyd. 'Da chi'n meddwl buasai yn un dda cael Gŵyl Pysgod yn Llanberis, i pawb gael profi rhan o gynhaeaf y llyn. Tynnu dŵr o ddannedd llawer i un wrth feddwl am flasu'r torgoch ar brithylliad unwaith eto. Do mi 'es i Wyl Fwyd Caernarfon, wel dyna chi le drud, 'doedd dim byd yno chwaith fuasai'n curo unrhyw gynnig o fwydlen Padarn. Beth am dani?



Tydi rhannu neu gwerthu pysgod y fro ddim yn beth dieithr chwaith. Mae wedi bod yn mynd ymlaen dros flynyddoedd maith, er erbyn heddiw does dim son am unrhyw un yn gwerthu pysgod o gwmpas y lle. Mae fy niolch yn fawr i Dafydd Guto y Glasgoed am ei sylwadau cerredig a gwybodaeth am gyfarfod a gynhaliwayd ar 26 Mawrth 1908 yn Ysgoldy, Bryneryr, Llanrug. 'Roeddwn yn ymwybodol fod y gymdeithas pysgota wedi bod mewn bodolaeth er 1908. Yr adeg hynny dan yr enw Cymdeithas Pysgotwyr Caernarfon a'r Cylch. Pwrpas y cyfarfod oedd i sefydlu cangen o'r gymdeithas ym mro'r Eco. Cyhoeddwyd fod nifer lled dda wedi dod ynghyd o ardaloedd Llanrug, Cwm y Glo, Ebenezer a Bethel. Ble oedd cynyrchiolaeth Llanberis tybed!! Dim llawer wedi newid ers dros ganrif felly. Fodd bynnag fe sefydlwyd cangen, sef rhagflaenydd y gymdeithas bresenol gyda 40 o aelodau. Wel da ni yma o hyd a wedi sicrhau fod hawliau eang o bysgota ym mherchenogaeth y clwb, a felly sicrhau dilyniant 'sgota i'r genhedlaeth i ddod. Os fydd rhain wrth gwrs eisiau gwarchod y fath beth.

Yn yr un papur ble gwelwyd manylion y sefydlu, sef Awel Eryri o 2 Ebrill 1908, gwelwyd hysbys o werthwr pysgod o Lanberis, mae copi yma at eich sylw (pwy oedd o tybed?). Hysbys da iw ddefnyddio i agor yr Wyl Bysgod, da chi'n meddwl?

Dwi wedi cyfeiro 'r blaen at y cynllun Pysgota i Ysgolion dan nawdd y Countryside Alliance. Mae y cael ei redeg drwy Ysgol Syr Huw, Caernarfon gan Gareth Evans. Bydd y cyfle pysgota eleni am y tro cyntaf ar 4 Gorffennaf, Llyn y Dywarchen fydd y lleoliad gyda 'sgotwrs/ddisgyblion o ysgolion Syr Huw a Chaergybi. Mae'n amlwg fod dim 'sgotwrs ifanc yn y fro hon!

6ed. Mawrth yng Nghaffi Prysor, Trwasfynydd, mynchais gyfarfod o Grwp Yngynghorol Pysgodfeydd Gwynedd. Cafwyd gryn wybodaeth ynglyn a asesiad Cyfoeth Naturiol Cymru o stoc Brithyll Môr ar eog. Dim yn dda iawn yn eu golwg nhw, ond ar y llawr mae pethau yn wahanol gyda niferoedd yn cynyddu'n lleol. Ond wrth gwrs mae'n rhaid iddynt ddal ati i danseilio'r gwirionedd er mwyn cael sail yw cynnigion i gyflewni deddfau atal 'sgota llym. Mater arall a dynodd fy sylw oedd papur sef Cyfeiriad Strategol Polisi Amaethyddol a gwaith fforwm rheoli tir Cymru a gyflwynwyd at sylw Bwrdd CNC ar 17 Mai eleni. Rhyw gyfle i newid cyfeiriad yn dod o Gaerdydd or diwedd, tybed. Siom oedd sylwi na'r unig gynyrchiolaeth i bysgotwyr fydd drwy Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gâr. Neb eto or gogledd. Os am fwy o wybodaeth am hyn edrychwch ar safle we Cyfoeth Naturiol Cymru.

Wel dyna ni, rhwy egwyl bach 'rwan tan mis Medi, dwi'n meddwl.

Huw Price Hughes



# ECO'r Wyddfa

## O'r Cyngorau

Cyngor Cymuned  
Waunfawr

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR  
NOS FERCHER 16.05.2018 AM 7.15 YR HWYR, YN FESTRI CAPEL  
Y WAUN, WAUNFAWR.

Presennol – Edgar Owen (Cadeirydd), Liz Daniel, Menna Jones, Cain  
Thomas, Doug Jones, Iwan Davies, Erddin Llwyd, Shoned Rees Griffith  
(cofnodi)

Ymddiheuriadau – Eurig Wyn, Cadi Jones, Sali Burns, Delyth Jones

Cofnodion Cyfarfod Blyneddol 16.05.2018

1. Rhodd y Cadeirydd am y Cadeirydd – £25.00 tuag at y Diffib
2. Ethol Cadeirydd am y flwyddyn 2018/19 – Cadi Jones
3. Ethol Is-gadeirydd am y flwyddyn 2018/19 – Cain Thomas
4. Ethol aelod a'r Lywodraethwyr yr ysgol – Doug Jones
5. Ethol aelod a'r bwyllgor y Ganolfan – Erddin Llwyd
6. Ethol aelod a'r bwyllgor Unllais – Menna Jones

Datganiad Buddiant - Dim

Derbyn Cofnodion 04.04.18 – Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod  
yn rhai cywir.

Materion yn codi o'r Cofnodion -

Materion Caeathro –

1. Ffordd Osgoi Bontnewydd –Bydd y gwaith yn cychwyn yn mis  
Tachwedd
2. Mainc Caeathro – Gwaith peintio y fainc i'w wneud yn fuan.
3. Hen ffordd Caeathro i Bontnewydd – Wedi cael ei ail gwynebu
4. Biniâu Baw Ci – aros ymateb gan Cyngor Gwynedd.

Materion Waunfawr –

1. Biniâu Baw Ci – Wedi derbyn ymateb CG, ond aros i'r biniâu gael eu  
gosod.
2. Tacluso Pentref – I'w drefnu gyda'r Urdd, dyddiad i'w drefnu.
3. Maes Parcio ger Ael y Bryn - gwaith i gael ei wneud i'r maes parcio gan  
CCG.
4. Les tir tu ol i'r Ganolfan –Aros pris i wneud trac beics ar y safle. Cae  
aml dywydd – aros i weld os oes grantiau ar gael i'w adnewyddu cyn  
trafod ymhellach.
5. Arwyddion cyflymder (fflachio) – I'w drafod ymhellach
6. Cyflymder traffic drwy'r pentref – cais i Cyngor Gwynedd i'w fonitro  
eto.

7. Clwb Ieuentid – Cyngor Cymuned wedi cytuno i dalu am rent y  
Ganolfan iddynt am y flwyddyn, Arweinydd a cynorhwydd yn hapus i'w  
roid eu hamser am ddim am y flwyddyn.

8. Gwefan y Cyngor – rydym yn fyw ar y wefan erbyn hyn.

9. Diffib – Wedi cyraedd y targed ac wedi ei archebu bydd yn cael ei osod  
tu allan i'r siop, diolch i Mark am gytuno i hyn. Bydd hyfforddiant ar sut  
i'w ddefnyddio yn cael ei gynnal yn fuan.

Gerddi Bach – Aros diweddariad ynglyn a datblygu y safle, Cyngor  
Cymuned wedi cadarnhau gwariant o £16,321 i ddatblygu y cae chwarae  
ar gwaith ffensiō. Gwaith wedi cwblhau a braf gweld plant y pentref yn  
ei ddefnyddio.

Safle Glyn Rhonwy –Dim mwy i'w adrodd ar hyn o bryd.

Adroddiadau

- a. Lloches Bws - Gwaith o dacluso y wal yn y maes parcio wedi cwblhau.
- b. Y Fynwent - Gwaith o ddyrchwyl y cwt yn mynd yn ei flaen.
- c. Llwybrau Cyhoeddus – Dim i'w adrodd.

Ch. Y Ganolfan- Cyfarfod o'r pwyllgor newydd wedi bod yn ddiweddar,  
siomedig ar y nifer oedd yn bresennol.

Materion Cynllunio - Dim i'w adrodd.

Materion Eraill – Hysbysfwrdd Caeathro – angen trefnu ffenestr newydd  
iddo.

Ysgol Feithrin Waunfawr – i'w drafod yn ein cyfarfod nesaf.

Dyddiad cyfarfod nesaf – 25 Gorffennaf, 2018



y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD  
the WALK AND DISCOVER PROJECT

**menter fachwen**

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk



MENTER  
MÔN



## TEITHIAU CERDDED

**NOS FAWRTH 10 GORFFENNAF 6.30 yh**

HANESION Y FELINHELI (1½ milltir)

CYCHWYN: Y FELIN SGWRSIO, STRYD BANGOR Y  
FELINHELI

HAWDD IAWN. PANED A CACEN AR GAEL AR Y DIWEDD.

**MERCHER 18 GORFFENNAF 1.30 yp**

DARGANFOD STORFA BOMIAU RHIWLAS A HENESION O  
CARREG Y GATH I RALLT (3 milltir)

CYCHWYN: CANOLFAN CYMUNEDOL RHIWLAS

CYMEDROL. SGIDIAU CERDDED.

**GWENER 27 GORFFENNAF 10.30 yb**

TAITH GERDDED A PICNIC: O DEINIOLEN I FACHWEN A  
TY'N FAWNOG I CLWT Y BONT (4½ milltir)

CYCHWYN: CAFFI EBs, DEINIOLEN

ANODD AR ADEGAU. LLWYBRAU CYHOEDDUS. SGIDIAU  
CERDDED DA YN HANFODOL.

DEWCH A PICNIC.

## SGYRSIAU

**NOS LUN 9 GORFFENNAF 7-8.00 yh**

CYFRES COF A CHADW (RHIF 6):

SGWRS: 'PENTREFI COLL CHWAREL PENRHYN A  
HANESION TREGARTH AC ABEROGWEN'

AR Y CYD A MENTER IAITH BANGOR

YN: Y POBTY, LON POPTY, BANGOR

YN Y GYMRAEG OND YN ADDAS I DDYSGWYR

TÂL TRWY GYFRANIAD

Bydd teithiau Mis Awst yn cynnwys crwydro Llanengan, Cwm  
Brwynog a teithiau eraill. Cysylltwch a Gareth Roberts yn Menter  
Fachwen ar 01286 870681 am rhagor o fanylion.

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD  
the WALK AND DISCOVER PROJECT

**menter fachwen**

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk



MENTER  
MÔN





# ECO'r Wyddfa

## O'r Cyngorau

Cyngor Cymuned  
Llanddeiniolen

1af Fai 2018

Clybiau Ieuenctid

Er fod gwahoddiad wedi ei at Y Cynghorydd Craig ab Iago I ymuno a ni yn y cyfarfod i drafod materion ynglyn a'r Clybiau Ieuenctid, ni chafwyd ymateb o fath yn y byd.

Cyfarfod Blynnyddol Y Cyngor

Penodwyd Y Cynghorydd Idris Thomas yn gadeirydd gyda Gareth Wyn Griffiths yn is gadeirydd am y flwyddyn.

Adolygu Polisiau a rheolau

Adolygydd y polisiau a rheolau yma. Polisi Risg, Polisi Ariannol, Rheolau sefydlog, Canllawiau'r Cyngor, Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

Seddi Gwag

Mae 3 sedd wag yn Y Cyngor sef, un ym Methel, Dinorwig a Deiniolen. Mae y ddwy sedd olaf wedi bod yn wag ers cryn amser, ac er fod hysbyseb wedi bod yn y papur Bro, nid oes neb wedi dod ymlaen. Bydd hysbyseb am sedd Bethel yn y papur Bro mis yma ac fis nesaf. Yna, awn ymlaen i gyfethol.

Cofnodion Cyfarfod 10fed Ebrill 2018

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

CCG - Er gyrru llythyr arall i'r cwmni ynglyn a parcio Bro Elidir, Dinorwig a Trem Eilian, Brynrefail, nid oes ymateb wedi dod unwaith eto. Awgrymwyd cysylltu a CCG yn gofyn am copi o'u polisi cwynion, a datgan ein bod yn ceisio cael ymateb a datusiad i broblemau parcio yn yr ardaloedd hyn. Ac yn methu cael ateb gan neb yn CCG. Os na chawn ymateb wedyn, yna cawn ddilyn eu polisi nhw i gwyno.

Dŵr yn codi ger Ty'r Ysgol, Rhiwlas - Derbyniwyd llythyr gan Priffyrdd Cyngor Gwynedd, sydd wedi bod yn edrych i'r broblem, ond nid oes dim yn amlwg. Efallai mai contractwyr Bt sydd wedi denu dŵr yno, ond ni ellid fod yn sicr o hynny, gan mai yn ôl Cyngor Gwynedd eu bod yn datgan fod yno broblem Natur Gwlyb o gwmpas y Tiroedd yn Rhiwlas. Felly maent yn bwriadu gosod pibellau o dan arwyneb y ffordd i arwain y dŵr i mewn i'r system traenio dŵr arwyneb bresennol, chan obeithio cwblwylhau y gwaith cyn y gaeaf nesaf.

Tyllau ar lon allt Rhiwlas, - Arolygwr ffyrdd am archwilio'r lon a gweithredu fel bod angen.

Ffordd Cae Hywel - Arolygwr ffyrdd yn ymweld oes angen tocio, ac am yrru neu drefnu ymhellach i'r ymweliad.

Amcanbris Meinciau - Cafwyd amcanbris o £50 i atgyweirio y fainc ym Mrynrefail, ac yn anffodus, nid oes posib atgyweirio mainc Penysarn. Cytunwyd i atgyweirio un Brynrefail.

Gohebiaeth a materion eraill

Ceisiadau Nawdd Ariannol - Derbyniwyd dau gais eleni am nawdd ariannol i gludo plant I gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanellwedd ddiwedd mai. Bydd parti Cerdd Dant Lleisiau

Llanbabs yn cystadlu ar ddydd Mercher, a bydd Parti Llefaru Adran Bethel hefyd yn cystadlu ar y dydd Mercher. Penderfynwyd rhoi £150 yr un i'r ddau grŵp, gyda'n dymuniadau gorau iddynt yn yr Eisteddfod.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Ty Ni, Gallt y Foel - Cais i ddileu cytundeb 106 oddi wrth caniatad cynllunio er mwyn diddymu'r angen i gadw'r ty yn fforddiadwy'n barhaol.

Caeau Uchaf, Deiniolen - Estyniad i'r tŷ presennol, ymestyn y cwrtil, adnewyddu adeilad allannol ynghyd a gosod offer trin carthion.

Blaen y Waen, Deiniolen - Gosod llinell drydan (cais ôl weithredol). 2 Helen Villa, Clwt y Bont - Creu mynedfa newydd ynghyd a lle cynnuau parcio.

Hen Lyfrgell Deiniolen - Codi tŷ deulawr a gwelliannau i'r mynedfa bresennol.

Derbyniwyd llythyr gan Ieuan Wyn ar ran Pwyllgor Ymgrych Tai a Chynllunio Gwynedd a Môn, yn trafod Cynllunio â'r Gymraeg. Gan fod y Cynllun Datblygu Lleol wedi ei fabwysiadu, awgrymwyd ein bod yn ymwybodol o'r tai a fwriedir ar eu cyfer yn ein cymunedau. Penderfynwyd gyrru at Rheolwr Cynllunio Polisi, Deilydd Portffolio Tai Cyngor Gwynedd ac Arfon Hughes, Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd i gael gwybodaeth a chrynhoi ffethiau allweddol cyn i geisiadau cynllunio gael eu cyflwyno.

GDPR

Ar Fai 25ain, bydd polisi newydd Datgelu Data yn dod i rym. Mae llawer o sôn am hyn, ac yn sgil y newidiadau sydd angen i'r Cyngor Cymuned ei wneud, penderfynwyd sefydlu Grŵp i ymdrin a materion a chreu Polisi Rheoli Data.

O Gwmpas Y Bwrdd

Deiniolen - Mae Cychod Blodau wedi cael eu gosod o flaen y tai yn Stryd Faenol i geisio harddu dipyn ar yr ardal. Fodd bynnag, mae angen caniatad gan CCG iddynt aros yno. Y clerc i ysgrifennu at CCG yn gofyn caniatad.

Blwch Post Stryd Faenol - Amser codi y post yn 9:00 y bore. Mae hyn yn anerbyniol. Mae angen ysgrifennu at y Swyddfa Bost yn gofyn iddynt oes posib newid i 4 neu 5 y prynhawn.

Penisarwaun - Llwybr Cerrig Gwynion. Mae Coeden wedi disgyn ar y llwybr, ac mae angen cysylltu a Chyngor Gwynedd i'w hysbysu, gan ei bod yn beryglus ac angen ei symyd o ran diogelwch.

Brynrefail - Mae y ffrâm amserlen bws ar y lloches bws wedi ei fandaleiddio. Mae'r Cyngor eisioes wedi gorfod peintio un ochor gan fod yna luniau anweddus wedi eu peintio yno. Gofynir yn garedig i drigolion gymeryd gofal o'r lloches aci'l hysbysu yr heddlu os gwelir cam ddefnyddio ohoni.

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



**DIONI**  
http://dioni.co.uk  
tel: 01341 247 200  
ebost: gwion@dioni.co.uk



**Royal Victoria Hotel** LLANBERIS  
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau  
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul  
• PRIODASAU •

**Ffôn- 01286-870253**  
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL  
Snowdonia



# ECO'r Wyddfa

## O'r Cynghorau

### Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar y 15fed o Fai 2018.

Croesawyd Mrs Elen Williams, Prifathrawes Ysgol Brynrefail i'r cyfarfod a dywedodd ei bod yn falch o gael y cyfle i gydweithio gyda'r Cyngor er lles y gymuned. Ar ddiwedd y cyflwyniad cafodd yr aelodau gyfle i holi Mrs Williams ar nifer o bwyntiau neu ddigwyddiadau oedd yn achosi pryder.

Diolchwyd i Mrs Williams am ddod i'r cyfarfod a gobeithir y gall yr Ysgol a'r Cyngor adeiladu ar eu perthynas drwy gydweithio yn agos i wella ein cymuned.

Y Fynwent.

Nodwyd fod pris wedi'i dderbyn am adeiladu wal gerrig ben pellha'r fynwent fel rhan o'r broses i baratoi am ehangu'r fynwent ar gyfer y dyfodol. Adroddwyd ymhellach fod Pwyllgor y Fynwent wedi cyfarfod i drafod hyn ar y safle, ac yn unfrydol yn eu penderfyniad mai nad oedd angen codi'r wal yma bellach. Adroddwyd hefyd fod gwaith o dactluso'r cwt wrth y fynedfa i'r fynwent yn mynd i gael ei wneud yn y dyfodol agos. Adroddwyd fod y gwaith o roi tywyrch wrth ymyl un o'r beddi wedi ei wneud.

Llwybrau cyhoeddus

Adroddwyd fod Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd yn edrych ar sefyllfa llwybr Carreg Fran, Cwm y Glo yn dilyn datblygiadau yno.

Cae Chwarae Cwmyglo

Trafodwyd nifer o syniadau parthed creu llefydd parcio yn rhan o gae chwarae Cwmyglo yn dilyn cyfarfod gyda swyddog o Gyngor Gwynedd.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a cynnal archwiliad o'r safle yn y dyfodol agos.

Adroddiad y Cynghorydd Berwyn Parry Jones.

Cynllunio

Yn dilyn gwaith a wnaethpwyd gan Weithgor o'r Pwyllgor Craffu Cymunedol, penderfynwyd gohirio mynd allan i ymgynghoriad ar y Canllawiau newydd i'r Iaith Gymraeg, i roi amser i benodi

arbenigwr i weld os oes mwyy galler ei wneud i amddiffyn yr iaith na sydd yn cael ei gynnig yn y Canllawiau presennol. Bydd canllawiau Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid a Chanllawiau Cymysgedd Tai yn dod allan yn fuan.

Arbedion

Mae Cyngor Gwynedd am ddisgwyl tan mis Hydref cyn chwilio am arbedion, pan fyddai ffigwr mwy cadarn o'r setliad ariannol yn dod gan Llywodraeth Cymru.

Gwasanaeth Ieuentid

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i swyddogion gynnal trafodaethau pellach gyda chymunedau sy'n ansicr am y gwasanaeth newydd, i geisio datrysiaid. Mi fydd hyn yn cynnwys trafodaethau pellach hefo'r Cynghorau Cymuned

Llwybr Amlbwrpas Cwm y Glo

Gofynwyd i Gyngor Gwynedd roi baent coch ar draws y ffordd i ddangos y llefydd croesi, arwydd newydd i Gwm y Glo tu allan i Dol Afon yn lle yr un sydd wedi torri, ac hefyd bin baw cŵn.

Llifogydd

Mae cais grant wedi mynd i mewn am y gwaith atal llifogydd yn Dol Afon a mae gwaith atal wedi'i wneud tu allan i Pant Afon Bach.

Adnewyddu'r ffordd a'r palmant drwy Cwm y Glo

Mae'r gwaith wedi cael ei brisio a bydd rhaglen waith yn cael ei benderfynu'n fuan.

Elusen 'Llanrug Poor House'

Adroddwyd gefndir yr elusen a'r broses i'w ddwyn i ben. Fe ddeallir y byddai'n bosib trosglwyddo'r arian sydd yn yr elusen i'r Cyngor. Rhoddwyd awdurdod y Cyngor i symud ymlaen a'r broses o ddod a'r elusen i ben a throsglwyddo'r arian i'r Cyngor Cymuned.

Ceisiadau Cynllunio

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:

- Estyniad i greu anecs i gynnwys ystafell wely, cegin ac ystafell fyw yn Ty Newydd Afon Rhos, Llanrug
- Dymchwel yr adeiladau allanol a chodi estyniad to gwastad yng nghefn yr eiddo yn 17 Glan Moelyn, Llanrug.



## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams. Ffôn: 870580



**Croeso** Estynnwn groeso i Kelvin, Rhian, Mali a Lili sydd wedi symud fel teulu o Benisarwaun i fyw yn ein plith. Mae'n braf iawn gweld disgynyddion yr hen deulu wedi symud i Dy'n Buarth – Rhian yn wyres i'r diweddar Richard Wyn a Gwyneth Evans a'r ddwy ferch fach y chweched genhedlaeth o leiaf i fyw yn yr hen gartref. Croeso mawr.

**Sefydliad y Merched** Bu'r wythnosau diwethaf yn gyfnod llawn o weithgareddau. Roedd y cyrsiau undydd ym Mhlas Tan y bwlch wedi profi yn llwyddiant mawr gyda nifer o'r aelodau wedi mynychu. Roedd y cyrsiau ar waith enamel a gwniadwaith anarferol dan ofal Pat Jones ac Anita Long.

Cynhaliwyd Rownd Derfynol y Boccia a daeth pedwar tîm ymlaen, un o bob Grŵp yn y Ffederasiwn. Llawenydd oedd cael cyhoeddi mai Cangen Brynrefail, Grŵp Eryri, oedd yn fuddugol ac yn ennill y cwpan. Mwynhaodd pawb de hufen i gloi'r gweithgareddau. Mae ein diolch i'n llywydd, Pat Jones, a'n hysgrifennydd am drefnu'r prynhawn.

Ymunodd y llywydd a'r ysgrifennydd ynghyd â Pat Parry o gangen Waunfawr ag aelodau o ganghennau Sefydliad y Merched yn genedlaethol i'r Cyfarfod Blynyddol yng Nghaerdydd. Bu'n gyfarfod buddiol gyda lle amlwg yn cael ei roi i'r argymhelliad eleni sef 'Mae Iechyd Meddwl yn Bwysig'. Cafwyd cyfle i wrando ar siaradwyr

arbennig yn trin y testun – yn eu plith Huw Edwards. Pleidleisiwyd o blaid datgan y pwysigrwydd o gydraddoldeb rhwng iechyd meddwl ac iechyd corfforol ac i lobio llywodraethau i gael gwell cymorth ar gyfer iechyd meddwl.

Bu nifer o'r aelodau ym Mhorthmadog mewn noson Bingo, Cacen a Gwin a phawb wedi mwynhau.

Roedd noson y gangen leol fis Mehefin yn Drip Dirgel gyda lluniaeth yn Yr Afr, Glandwyfach.

I gloi gweithgareddau'r haf bydd cyfarfod mis Gorffennaf dan ofal Anita Long ar y testun 'Lluniau a Straeon'.

### Yr Eglwys Bresbyteraidd

#### Oedfaon Gorffennaf am 5 yr hwyr

1: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)

8: Oedfa dan nawdd yr aelodau

15: Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn

22: Mr Dafydd Iwan, Caeathro



# ECO'r Wyddfa

## O'r Cyngorau

### Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION CYFARFOD MIS MAI 2018:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fercher 16 Mai, 2018 am

7.00 y.h.

1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Nicola Brown, Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Iwan Harding, Bethan Holding, Heather Lyn Jones, Kevin Morris Jones, Helen Sharp.

Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts, Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Trystan Thomas

2 DATGAN BUDDIANT:

Dim. Cofnodir o dan wahanol benawdau os bydd angen.

3 ETHOL CADEIRYDD AC IS GADEIRYDD:

Gyda'r Clerc yn gweithredu fel Cadeirydd gofynnwyd am enwebiadau. Derbyniwyd un cynnig i gadw'r Cadeirydd a'r Is gadeirydd presennol. Doedd dim gwelliant a gyda pawb yn pleidleisio yn unfrydol o blaid, ail etholwyd Rhys ap Gwilym yn Gadeirydd a Bethan Holding yn Is gadeirydd ar gyfer 2018/19/.

4 CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher 25 Ebrill, 2018 fel rhai cywir.

5 MATERION YN CODI O'R COFNODION: 1. Y Wefan:

Ar y gweill.

2. Ciosg BT Maes Padarn:

Wedi ei symud, yn ogystal a chiosc Nantperis hefyd.

3. Heddlu Gogledd Cymru:

Chafwyd byth ateb oddi wrth Brif Swyddog Rhanbarthol Heddlu'r Gogledd ac awgrymwyd anfon gair at y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd. Soniodd KMJ am gyfarfod cyhoeddus gyda'r heddlu i drafod digwyddiadau gwrthgymdeithasol ond nid oedd aelodau'r Cyngor yn awyddus i'r Cyngor drefnu hwn. Penderfynwyd disgwyl am ymateb yn gynta.

4. Ymgrych Diogelu Cymru Wledig:

Bu'r Cadeirydd a'r Clerc yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer cystadleuaeth pentrefi gweithgar YDCW ym Mhorthmadog ar gyfer siroedd Caernarfon a Meirionnydd. Wedi trafodaeth penderfynwyd nad oedd digon o amser i baratoi dogfennau eleni a gofynnwyd i'r Clerc anfon at YDCW yn gofyn os bydd cystadleuaeth yn y dyfodol i roi mwy o amser ar gyfer paratoi.

5. Diogelu Data:

Er fod y Llywodraeth wedi ailfeddwl ynglyn â'r ddeddf newydd a phenderfynu y bydd modd i Glerc fod yn swyddog diogelu data o hyn allan, penderfynwyd cadw at y penderfyniad gwreiddiol.

6. Bwlch Maesgwm:

Derbyniwyd llythyr yn diolch am gyfeirio at y difrod i'r llwybr dros y bwlch. Nodwyd mai 78 o feicwyr oedd wedi cymeryd rhan yn y digwyddiad ond fod 1,279 wedi defnyddio Llwybr Llanberis i gopa'r Wyddfa. Nodwyd fod llwybr Maesgwm yn rhan o gylch Yr Wyddfa ond fod angen gwaith ar y rhan sy'n disgyn i lawr i gyfarfod llwybr Llyn Cwellyn. Ychwanegwyd fod Awdurdod y Parc yn rhannu'r un pryderon a'r Cyngor hwn am effaith cynyddol

y mae digwyddiadau mawr yn ei gael ar rai ardaloedd yn Eryri. Dywedwyd fod canllawiau yn bodoli i drefnwyr digwyddiadau ac fod Partneriaeth yr Wyddfa yn rhan o'r ateb i hynny. Mae APCE yn cydanbod bod atal digwyddiadau yn anodd iawn ac fod eraill fel yr Heddlu a'r Gwasanaeth Ambiwlans hefyd yn methu cael adnoddau digonol i 'w cefnogi. Soniwyd hefyd am y lleihad sylweddol a fu yng nghyllid yr Awdurdod, mae'n is yn awr nag oedd yn 2001. ac mae hynny heb gyfrif chwyddiant.

7. Y Gofeb:

Cyfarfod i'w gynnal ar 6 Mehefin yn Y Ganolfan.

8. Partneriaeth y Toiledau gyda CG:

Chafwyd dim ymateb i'r llythyr a anfonwyd ynglyn ag ymateb i'r cyfarfod a fu a swyddogion y Cyngor yn gynharach yn y flwyddyn na'r cais am gyfran o arian meysydd parcio, er fod dyddiad y cyfarfod hwn wedi ei nodi'n glir ar y llythyr

6 MATERION ERAILL:

1. Llinellau Melyn:

Bydd llinellau melyn yn cael eu hychwanegu i'r ffordd ger Plas Pengwaith i atal parcio.

2. Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru:

Mae un o swyddogion CG yn dymuno dod i un o gyfarfodydd nesa'r Cyngor i son am y gwaith i geisio sicrhau enwebiad Treftadaeth y Byd i ardaloedd llechi y gogledd orllewin sy'n cynnwys Llanberis.

7 CYNLLUNIO:

CG:

• C18/0328/15/LL - Codi adeilad deulawr at ddefnydd busnes B1 i gynnwys gweithdy / labordy / swyddfa ynghyd â pharcio a plannu - Glynrhonwy, Llanberis. - Dim sylw.

8 GOHEBIAETH:

1. Heddlu Gogledd Cymru, Cynnal Gweithgareddau Gwyliau Haf:

Cafwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Siwan Humphreys un o'r swyddogion Cefnogi Cymuned gyda HGC tuag at gynnal gweithgaredd er mwyn 'lleihau y niferoedd o achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol' yn ystod gwyliau'r haf. Penderfynwyd gofyn am fwy o fanylion ynglyn a'r gweithgaredd, lleoliad, anelu at pa oedran ac amllder.

2. Ysgol Dolbadarn:

Cafwyd cais am gymorth tuag at gostau teithio Parti a Chôr o'r Ysgol a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanellwedd. Byddant yn cystadlu ar 29 Mai. Penderfynwyd rhoi £300 tuag y bws a fydd yn costio £800 gan ddymuno'n dda i'r cystadleuwyr o'r ysgol.

3. Eric Baylis:

Nodyn oddi wrtho yn nodi mai gofalwr Maes Carafannau Llanberis sydd yn garedig iawn wedi bod yn torri gwair wrth fynedfa orllewinol y pentref. Awgrymwyd gyrru gair i ddiolch iddo.

4. Y Ganolfan:

Derbyniwyd copi o lythyr oddi wrth CG a dderbyniodd ysgrifennydd Y Ganolfan ar ôl iddo gwyno nad oedd modd i drigolion a phlant lleol ddefnyddio Cae'r Ddôl oherwydd fod cynifer o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal yno dros nifer o benwythnosau. Fel yr adroddwyd wrth y Cyngor yn gynharach eleni mae bwriad i edrych ar Parc Padarn a Cae'r Ddôl i benderfynu ar eu rheolaeth yn y dyfodol ac oherwydd hynny tydi trosglwyddo gofalaeth Cae'r Ddôl i ofal y Gymuned ddim yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

9 CYFARFOD NESAF:

Yn Y Ganolfan, Llanberis nos Fercher 13 Mehefin, 2018 am 7yh.


## Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED  
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED  
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

**Sion Roberts** ▶ **07759415753**

3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5



## E. W. Pritchard

*Trefnwyr Angladdau*

CENTRAL GARAGE

LLANBERIS

FFON- (01286) 870202

# LLANBERIS

W

# Garddwest ym Mhalas Buckingham

Ar hyn o bryd does dim cadetiaid ifanc yn perthyn i Gangen Llanberis, ond gobaith Beryl yw denu aelodau rhwng 10 ac 16 oed i ymuno a chael hyfforddiant. Os oes unrhyw un o'r fro â diddordeb mewn bod yn aelod o'r gangen, yna mae croeso i chwi ffonio Beryl ar 07789586917. Mae parhad y gangen yn dibynnu ar waed ifanc newydd.

|           |                             |
|-----------|-----------------------------|
| 8fed:     | 10yb a 5yh Y Gweinidog      |
| 15fed:    | 10yb Mr Huw Tegid Roberts   |
| 22ain:    | 10yb Oedfa                  |
| 29ain:    | 10yb Mr Myfyr Roberts       |
| Awst 5ed: | 10yb Y Parch Olwen Williams |
| 12fed:    | 10yb Mr John Roberts        |
| 19eg:     | 10yb Mr Glyn Owen           |
| 26ain:    | 10yb Y Gweinidog            |

**WAVELL'S**

**Bryn Ac Angela Williams**

**London House  
LLANRUG**

**PEN  
CIGYDDION  
Y FRO**

**YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS  
SELSIG CARTRE  
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA  
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST  
MYNWCY Y GORAU  
DEWCY ATOM NI!!**

**(01286) 673574**



## Ysgol Dolbadarn

### Eisteddfod Yr Urdd

Bu côr a pharti deulais yr ysgol yn cystadlu yn yr Eisteddfod yr Urdd yn ystod gwyliau Sulgwyn. Diolch i bawb am eu cefnogaeth gyda'r cludiant a diolch yn arbennig i'r disgyblion a'r staff am eu gwaith caled.

Diolch hefyd i'r disgyblion a'r staff am baratoi llwyth o waith Celf unwaith eto ar gyfer y cystadlaethau Celf a Chrefft. Braf yw gweld cymaint o blant yn mynychu'r clwb celf. Diolch i'r staff am eu gwaith caled.



### Gweithgareddau Awyr Agored

Mae'r ysgol yn ffodus iawn o allu manteisio ar arbenigedd carfan o rieni sydd yn gymwys yn y maes awyr agored, er mwyn gallu cynnig profiadau gwerthfawr iawn i'r disgyblion. Bydd Blwyddyn 3 yn dringo creigiau ym Mrynrefail, Blwyddyn 4 yn dringo Moel Eilio, Blwyddyn 5 yn cael sesiynau caicio ar y llyn a Blwyddyn 6 yn cael cerdded i gopa'r Wyddfa cyn diwedd yn tymor.

### Planedau

Mae Blwyddyn 4 wedi bod wrthi'n brysur yn modelu planedau a fydd yn cael eu harddangos yn y caffi Pen Ceunant cyn bo hir-ewch draw i'w gweld. Buu iddynt fwynhau y gwaith ymchwilio yn fawr iawn.



### Ysgolion Creadigol

Bu disgyblion Blwyddyn 3 yn rhan o gynllun Ysgolion Creadigol y Cyngor Celfyddydau eleni. Y testun eleni oedd datblygu llefaredd disgyblion drwy sgiliau creadigol ar y thema Ail Ryfel Byd. Cafodd y disgyblion brofiadau amrywiol gan dri ymarferydd sef Sian Beca, Branwen Davies a Rhodri Williams. Daeth yr holl waith perfformio ynghyd mewn parti arbennig tebyg i bartion a welwyd yng nghyfnod y rhyfel gan gynnwys brechdanau spam! Yr oedd y disgyblion wrth eu boddau yn perfformi sgriptiau am y cyfnod a chael gwisgo i fyny ar gyfer yr achlysur. Gallwch wedd enghreifftiau o'r gweithgareddau ar wefan yr ysgol [www.ysgoldolbadarn.org](http://www.ysgoldolbadarn.org)

Dyma lun o barti a gynhaliwyd yn y Neuadd i groesawu'r ifaciwis i'r pentref.



### Darllen Dros Gymru

Bu i ddau grwp o ddisgyblion gystadlu eleni gan ddarllen dwy nofel sef Arian Piced Morgan a Deri Dan y Daliwr Dreigiau. Daeth tim Blwyddyn 4 yn 3ydd yn Arfon- da iawn chi blant.



## DATHLU'R 50ed TYMOR

Ganol Mehefin cafwyd aduniad llawn atgofion draw yng Nghlwb Pêl-droed Caernarfon. Ie, pen-blwydd hapus C.P.D. Llanrug yn dathlu eu 50 tymor ers yr ail sefydlu yn nhymor 1968/69. Cyfnod didor hefyd o chwarae ar Eithin Duon. Maes sydd wedi newid yn sylweddol o ran safon a chyfleusterau dros y cyfnod. Cae trwm gyda gogwydd sylweddol yn ei hyd a'i led oedd y maes gwreiddiol a'r stafelloedd newid cwt pren gwyrdd yn y gornel gwaelod. Serch cyflwr y maes, gemau llawn goliau fyddai'r gemau yn Llanrug fel arfer. Ennill y 'toss', a chwarae i fyny'r 'allt' hanner cyntaf, ac yna pledu peli hir lawr yr 'allt' yr ail hanner. Gêm felly oedd fy ymddangosiad cyntaf ar Eithin Duon yn nhymor yr ail gychwyn, gyda thîm y Coleg Normal, a pheniad Gareth Pritchard o gic gornel hwyr yn cipio'r fuddugoliaeth 3-2 i'r Normal. Rwy'n siŵr fod Alan Vincent yn chwarae i Lanrug y diwrnod hwnnw. Yn nhîm y Coleg hefyd roedd Elfyn Richards, a chwaraeodd i Lanrug tra'n athro ym Mrynrefail. Y Parch. Elfyn Richards wedyn. Alan Hower, Gareth Griffiths, Hywyn Jones, Sel Allsop, Hefin Jones, Dafydd Arfon.. nifer o gyn-fyfyrwyr B.N.C. a chwaraeodd i Lanrug.

Prif nodwedd y clwb oedd bod yn rhan allweddol o'r gymdeithas. Bu trefn yno, gyda sawl pwyllgorddyn a roddodd wasanaeth teilwng. Gwella, mewn safon a chyfleusterau fu'r nodllwyddiannus. Yn wir, yn ddiweddar cafwyd grant gan G.P.D. Cymru i ddatblygu yr ystafelloedd newid. Yn fuan yn yr ail-sefydlu dechreuwyd ar ddatblygu timau ieuencid. Drwy ymroddiad sawl unigolyn dechreuwyd y polisi o ddatblygu ein 'chwaraewyr ein hunain'. Bu sawl hogyn 'lleol' yn gwisgo'r lifrau coch a gwyn dros y tymhorau. Taith o ddringo'r cynghreiriau fu hi hefyd – yn cyd redeg bron iawn a'r arch 'elynyon' i fyny'r dyffryn. Cafwyd sawl darbi cofiadwy yng nghynghreiriau Caernarfon a'r Cylch, Gwynedd, ac yna adrannau 2 ac 1 o gynghrair yr Alliance. Drwy orffen yn drydydd eleni, dyma safle uchaf Llanrug erioed yn y pyramid cynghreiriol Gymreig – un yn uwch na'r 'gelynyon'. Ond âi'r tîm cyfredol yma oedd y tîm gorau dros y 50 mlynedd? Testun dadl yw honno? Cofir bod nifer wedi chwarae i'r ddau glwb, ac efallai nodi bod ambell un wedi 'cicio' i'r ddau dîm, chwedl yr hen stejars. Am gyfnodau hir hefyd rhedeg ail dîm a hwythau yn feithrinfa i'r tîm cyntaf.

Fel pob clwb bu cyfnodau o lanw a thrai. Sawl tro bu taith i'r Oval ar gyfer rowndiau terfynol. Bu Eithin Duon a'i gyflwr ardderchog yn y tymhorau diwethaf hefyd yn fangre gemau terfynol sawl cystadleuaeth, gan gynnwys Tlws yr Eco. Bu cyfnodau llewyrchus dan reolaeth Dafydd Mona/ Hywyn Jones ac yna Aled Owen. Ennill cynghreiriau a chwpanau gan gynnwys Tlws F.A. Cymru yn y gêm wych draw ar y Belle Vue yn Rhyl. Daeth Llanelli, Bangor a'r Cofis draw mewn gemau Cwpan Cymru cofiadwy. Cofio dyfarnu'r gêm 17-0 yn erbyn Prifysgol Bangor – rhai o'u chwaraewyr mewn pypms – i gipio Cynghrair Gwynedd. Ni anghofiaf aelodau tîm Machno yn gadael Eithin Duon ar hanner amser wedi brwydr ryfeddol rhyngddynt a Llanrug am y Bencampwriaeth y tymor hwnnw. Hwythau yn gwylio 'shambles' o gêm yn penderfynu y Bencampwriaeth. Cafodd y reff gêm go lew. (Doedd dim angen VAR!)

Yn anad dim, chwaraewyr sy'n gwneud clwb. Eu dawn a'u hymroddiad. Eu balchder mewn gwisgo'r crys. Yn fwriadol nid ydwyf wedi enwi unrhyw chwaraewr. Roedd yn fwriad gennyf i gynnal rhyw gystadleuaeth enwi 'Tîm Llanrug y 50'. Mae'n siŵr fod hyn wedi cael ei drafod yn y noson ddathlu ble daeth nifer o gyn-chwaraewyr ynghyd. Cwil Cwm neu Nigel Hardwicke yn y gôl...

Beth am y dyfodol? Wel, mae dipyn o gwmwl ar y gorwel. Mae'r awdurdodau yn mynnu fod maint Eithin Duon yn rhy fach i anghenion y gêm fodern. Anodd iawn oherwydd lleoliad a chaniatâd yw i'r clwb ymateb i'r gofyn. Un peth diddorol am y penderfyniad yma yw mai dim ond dau glwb yn yr holl gynghrair – Dyffryn Nantlle a Llangefni – sy'n ateb y gofynion. Roedd y ddau glwb yma yn aelodau o'r hen Welsh League, wrth gwrs. Pa ddyfodol felly i glwb Llanrug dan arweiniad Dafydd Noel Williams?

Fydd rhai pethau ddim yn newid. Y penderfyniad o wneud pethau yn iawn. Cefnogaeth y gymuned leol. Panad dda hanner amser. A dynas giât gwaelod a'i "Press o ddiawl" gan dderbyn fy arian mynediad!

Diolch Llanrug am sawl atgof fel chwaraewr, dyfarnwr a gwyliwr dros y blynyddoedd. Ymlaen yn hyderus i'r 50 nesaf gobeithio.

**AVW** ADVANCED VEHICLE WORKSHOP Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porsche **BOSCH Service**

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

**Which?** Trusted trader **01286 673559** **Car Service** for everything your car needs.

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - [www.AVWBosch.co.uk](http://www.AVWBosch.co.uk)

**FFRAMIA**  
Parc Padarn Llanberis  
(01286) 870922

Gwasanaeth **FFRAMIO LLUNIAU**

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN  
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

[www.ffmpegia.com](http://www.ffmpegia.com)

**grid76** graphic design

North Wales  
**SIGNS**  
Gogledd Cymru

Uned Unit **A9** Cibyn Ind Estate [northwalessigns.com](http://northwalessigns.com)  
[grid76.co.uk](http://grid76.co.uk) | 07766956673

**DODREFN A LLORIAU PERKINS**  
FURNITURE & FLOORING

••• **01286 673535** •••

[www.perkinsfurniture.co.uk](http://www.perkinsfurniture.co.uk)

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG



## NEWID TYMHORAU

Dros y blynyddoedd rwyf wedi pwr casu casgliad o hunangofiannau o rai o sêr amlycaf y prif gampau – yn Gymru a thramorwyr. Rhai o Gareth Edwards i Brian Lara a gydnabyddid yn oreuon yn eu campau. Ym mhob un o’r cofiannau mae rhai elfennau yn gyson. Arweiniad positif yn y cyfnodau cynnar, hyfforddi pwrpasol a mwynhad o fod yn rhan o dimau – lleol yn gyntaf yna i’r uwch safon. Roedd hyn yn gyson pa ble bynnag ran o’r byd oedd aelwyd y cyfrannwr. Cyfeirir hefyd nad camp 12 mis y flwyddyn oedd y bwriad. Yn wir, roedd nifer ohonynt yn dalentog mewn amryfal gampau. Roedd Gareth, er enghraifft, yn safonol iawn mewn athletau a phêl-droed hefyd. Viv Richards – criced a phêl-droed. Yr oeddent yn honni fod ymarfer rhai o elfennau eu ‘ail-gamp’ yn cryfhau eu perfformiadau yn eu prif-gamp. Yr oedd hefyd yn bwysig i gael toriad o’r pwysau yn y prif-gamp.

Mae newid sylfaenol wedi ei gyhoeddi yma yng Nghymru yn ddiweddar o du’r Undeb Rygbi. Eu bwriad yw defnyddio misoedd yr haf bellach i hyrwyddo y dull ‘rygbi cyffwrdd’ (touch rugby) i’r to iau o chwaraewyr. Ar hyn o bryd mae 59 o glybiau Cymreig wedi cytuno i arddel yr arbrawf. Yn naturiol, hwn fydd y prif atyniad i nifer o chwaraewyr. Ymarfer yn yr haf – a’r gaeaf wrth reswm – ynghyd â’r gemau arferol. Plentyn ifanc o oed cynradd felly ynghlwm ac un camp am 12 mis. Mae’n mynd felly gyda phêl-droed yn barod. Mae nifer o dimau ieuencid eisoes yn ‘ymarfer’ ar gyfer y tymor nesaf.

Rwy'n amau eich bod eisoes yn gweld i ba gyfeiriad rwy'n anelu. Ie, y trydydd prif gêm, criced. I ble mae honno yn mynd? Mae arwyddion yma yn y gogledd fod y nifer o chwaraewyr ieuencid yn lleihau yn sylweddol. Gemau yn cael eu chwarae ond nifer o chwaraewyr dan oed yn britho’r timau. Mae gofyn i bob tîm yn Uwch Gynghrair y Gogledd redeg tri thîm ieuencid – fel arfer 11,-13 a 15. O’r 12 clwb dim ond rhyw hanner sy’n gallu cyflawni’r gofynion.

Ganol Mehefin cynhaliwyd Twrnamaint Criced Cylch Bangor acw ar Tŷ Newydd. Daeth 21 tîm i gystadlu, hynny yw rhyw 200 o blant yn mwynhau’r cyfleusterau a’r cystadlu. Ar noson ymarfer acw, rhwng yr oedrannau i gyd ceir rhyw 25 o blant. Gwn fod nifer o’r plant yna yn chwarae i dimau pêl-droed a rygbi yr ardal. Faint o’r 25 yna a welwn y tymor nesaf? O siarad â nifer o’r plant, roedd yn amlwg fod cryn bwysau yn dod o gyfeiriad rhai hyfforddwyr bod rhaid mynychu sesiynau hyfforddi’r haf os oeddent am fod yn y garfan y tymor nesaf.

Beth fydd patrwm tymhorau’r campau yn y dyfodol tybed? Ar hyn o bryd mae Uwch Gynghrair Pêl-droed Cymru yn ymwrthod â dilyn Iwerddon a chwarae’r gemau yn ystod yr haf, ac felly yn rhoi mwy o fantais i dimau Cymreig sy’n chwarae yng nghystadlaethau Ewrop. Mae uwch gynghrair Lloegr am roi toriad o bythefnos yn ystod y gaeaf nesaf. Pam? Er lles y caeau, y chwaraewyr, y cefnogwyr? Ydy, mae patrymau’r campau fel bywyd ei hun yn prysur newid. Er gwell, er gwaeth? Amser a ddengys.

## GAIR O RYBUDD

I chwi bysgotwyr lleol. Gweld mewn ‘aquarium’ hynod o ddiddorol yn Vancouver yn ddiweddar y pennawd yma. ‘Due to good management and controlled fishing, the Artic Char is in plentiful supply’. Ie, y torgoch, a fu bron diflannu o’n llynnoedd lleol oherwydd difaterwch dyn tuag at yr amgylchedd.

### BYSUS RHIWLAS

**BYSUS BACH A MAWR**  
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT  
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.  
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-  
ffoniwch (01248) 361044



## D. P. OWENS RHIWLAS

## RHEDEG MYNYDD

Ras Moel Eilio, y glasuwr lleol oedd yn denu sylw y mis diwethaf, a chafwyd y gefnogaeth arferol, gyda £500 yn cael ei gyflwyno i Elusen Tenovus Cancer. A Mathew Roberts o Lanberis oedd yn fuddugol mewn amser o 66 munud o Lanberis i gopa Moel Eilio, Foel Gron, Foel Goch a Moel Cynghorion cyn dychwelyd i Lanberis. Daeth Arwel Lewis (Bethel) yn drydydd yn yr adran i ddynion dros 50 oed ac Alwyn Oliver (Dinorwig) yn ail yn yr adran i ddynion dros 70 oed – ond aeth ei wraig, Maggie, un yn well, ac ennill yr adran i ferched dros 70 oed.

Mathew Roberts oedd yn gyfrifol am drefnu Ras Tal y Mignedd ddechrau Mehefin; ras oedd yn rhan o Bencampwriaeth Rhedeg Mynydd Prydain eleni. A daeth goreuon rhedeg mynydd Prydain i Nantlle ar ddiwrnod heulog a derbyn croeso cynnes gan y gymuned.

Yn dilyn y ras roedd noson o adloniant wedi ei threfnu, ac yr oedd gweithgareddau’r diwrnod wedi cynhyrchu elw o £4,000 i alluogi’r pentref i brynu diffibrilwr a llenwi coffrau Ysgol Baladeulyn. Enghraifft wych o sut y gall cymuned leol ddangos nad oes angen cwmnïau masnachol i wneud llwyddiant o gynnal rasys mynydd. Ac er prysurdeb yr holl waith paratoi, cafodd Mathew redeg yn y ras a gorffen yn bedwerydd allan o dros ddau gant o redwyr. Roedd Gareth Hughes hefyd o fewn yr ugain cyntaf.

Roedd dros gant yn cystadlu yn ras y merched, gyda Bronwen Jenkinson (Waunfawr) yn cyrraedd y copa ar y blaen, ond Caitlin Rice yn ei dal ar y ddisgynfa, ac yn ennill o ychydig eiliadau yn unig. Er hynny, Bronwen yn ennill y categori i ferched dan 23 oed. Ac y mae llwyddiannau Bronwen dros y misoedd diwethaf yn golygu ei bod wedi ei dewis i gynrychioli Prydain ym Mhencampwriaeth Rhedeg Mynydd Ewrop yn Skopje, Macedonia ar y Sadwrn cyntaf yng Ngorffennaf. Yn anffodus bydd yr “Eco” wedi ei anfon i’r wasg cyn derbyn canlyniadau’r ras honno.

## CWPAN Y BYD – CWPAN DECHNOLEGOL

Rwy’n ysgrifennu hyn o eiriau gyda’r mwyafrif o’r 16 gwlad llwyddiannus wedi eu cadarnhau. Ar yr olwg cyntaf nid oes unrhyw dim yn sefyll allan – yn wir bu cryn sioc gyda rhai o fawrion y Cwpanau cynt yn colli gemau. Mae unigolion wedi denu mwy o sylw. Ronaldo yn erbyn Sbaen a Messi yn arbed yr Ariannin yn erbyn Nigeria. Yna Kane yn rhwydo yn rheolaidd. Ond, yn y gemau cynghreiriol i mi y dyfarnu sydd wedi denu sylw. Os dyma ddyfarnwyr gorau y byd – fel y dylai fod – yna mae’r safon yn isel. Am y tro cyntaf nid oes Prydeiniwr yn dyfarnu. Hefyd y mae gormod ohonynt yn or ddibynnol ar y VAR. Oes mae eisiau defnyddio technoleg i warantu y penderfyniadau cywir fel yn y byd criced a rygbi. Serch hynny, mae’r dyfarnwyr mewn sefyllfa i roi’r dyfarniad heb help VAR. O’r herwydd mae’r VAR fel y TMO ym myd rygbi wedi dod yn or bwysig. Os yw VAR yn cael ei dderbyn yna bydd rhaid tynnu un frawddeg bwysig allan o bob rheol pêl-droed sef, “Os ym marn y dyfarnwr...” a’i newid i “Os ym marn y dyfarnwr wedi cadarnhad VAR neu’r sgrin fach...” Yn sicr bydd galw am y VAR yn gemau Uwch Gynghreiriau pob gwlad wedi’r gystadleuaeth hon. Ond beth am y cynghreiriau eraill? Onid yw canlyniad pob gêm ar unrhyw lefel yn bwysig i’r sawl sydd yn cymeryd rhan? VAR ar Ffordd Padarn, Yr Oval... Un f yw y gallai weld diweddu yr holl afael a gwrthio yn y cwrt cosbi. Pwy sydd am ennill? Wn i ddim, ond rwy’n hoffi dull o chwarae Croatia. Yr Almaen, Yr Ariannin, Ffrainc, Lloegr? Pwy a wŷr, ond rwy'n teimlo y gallasai Cymru fach fod wedi cymeryd ei lle yma. Mae her i Ryan Giggs a’i hyfforddwyr weithio am y pedair blynedd nesaf gyda’n carfan ieuanc ac i ni gymeryd ein lle ar lwyfan byd. A gobeithio darganfod ymosodwr i rannu’r baich o sgorio goliau gyda Bale.



# Chwaraeon

## Ysgol Brynrefail ar y brig eto



Mewn cystadleuaeth beicio mynydd ganol fis Mehefin yn Llanberis roedd timau'r ysgol yn amlwg yn mwynhau cystadlu ar eu tomen eu hunain. Trefnwyd y gystadleuaeth gan yr Uned Datblygu Chwaraeon, ac wedi diwrnod llawn brwdfrydedd cafwyd canlyniadau gwych. Roedd tim genethod Blwyddyn 7 ac 8 yn drydydd a'r tim bechgyn yn ail. Aeth timau Blwyddyn 9 a 10 ymlaen i hawlio'r wobwr gyntaf: y genethod a'r bechgyn yn ennill. Ymlaen felly i Lanrwst a'r gystadleuaeth derfynol.

## LLONGYFARCHIADAU



Wedi diwrnod hir o gystadlu mewn tipyn o wres gorffennodd tîm pêl-droed dan 14 oed Bethel yn ail yn nhwrnamaint pêl-droed Cae Gwyn ar feysydd Ysgol Syr Huw. Mae hwn yn un o'r prif dwrnameintiau yn denu clybiau o lawr yr arfordir. Aeth y tîm drwy'r gemau grŵp yn fuddugol ym mhob gêm heb ildio gôl. Yn y rownd gyn-derfynol curo Cae Gwyn 2-0. Yn y rownd

derfynol collwyd o 2-0 yn erbyn Llandudno Swifts – cyn glwb Neville Southall flynyddoedd yn ôl. Wedi tymor hir cynghreiriol gorffennodd yr hogiau yn gydradd drydydd. Diolch i Gareth Jones a Steve Hughes ( Twts) am eu hymroddiad i'r hogiau dros y tymor.

Ar yr un penwythnos cynhaliwyd twrnamaint i ferched wedi ei drefnu gan Glwb Merched Bethel. Dyma'r achlysur cyntaf i'r clwb drefnu a denwyd sawl tîm. I goroni blwyddyn y clwb enillodd tîm iau y clwb Gwpan Gogledd Cymru.

Ar lefel merched, gwych yw dilyn perfformiadau tîm hŷn Merched Cymru yn rowndiau rhagbrofol Cwpan y Byd a gynhelir yn Ffrainc y tymor nesaf. Curo Lloegr a byddwn yno, ac ail fyw gwefr Ewro 2017 gobeithio. Da yw cael gweld y gemau yn fyw ar y teledu, a rhyfeddu at ddynwch y tîm, o gofio'r niferoedd cymharol fechan yn y pwll dewis i gymharu â gwledydd eraill Ewrop. Nid ydynt wedi ildio gôl hyd yn hyn yn y gemau rhagbrofol – tipyn o gamp dros naw gêm. Rhwch 'hell' iddyn nhw genod!